

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mercher, 1 Hydref 2014

Amser:

09.15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Marc Wyn Jones

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8505

PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Agenda

MeetingTitle

Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 09.15 – 09.30

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 7 (09.30 – 11.00) (Tudalennau 1 – 45)

Llywodraeth Cymru

CYPE(4)-23-14 – Papur 1

CYPE(4)-23-14– Papur 2

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Eleanor Marks, Dirprwy Cyfarwyddwr Is-adran Cymunedau

Katie Wilson, Cyfreithwraig

Kevin Griffiths, Pennaeth Pynciau Craidd – Cwricwlwm

Ceri Planchant, Cyfreithiwr

3 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 8 (11.00 – 11.45) (Tudalennau 46 – 61)

Cyngor ar Bopeth Cymru a Gwasanaeth Cyngtori Ariannol

CYPE(4)-23-14 – papur 3

CYPE(4)-23-14 – papur 4

Lindsey Kearton – Swyddog Polisi, Cyngor ar Bopeth Cymru

Lee Phillips – Rheolwr Cymru, Gwasanaeth Cyngtori Ariannol

4 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 9 (11.45 – 12.15) (Tudalennau 62 – 65)

Estyn

CYPE(4)-23-14 – papur 5

Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol

Catherine Evans, Arolygydd EM

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Eitem 6

6 Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed – Trafod yr adroddiad drafft (12.15 – 12.30) (Tudalennau 66 – 95)

CYPE(4)-23-14 – papur preifat 6

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/LG/0917/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Medi 2014

Annwyl Ann,

**Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG – CRAFFU CYFNOD 2 AR Y BIL
ADDYSG A CHYNHWYSIANT ARIANNOL (CYMRU)**

Cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 1 Hydref 2014 yng nghwmni'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwyf yn darparu rhai ymatebion cychwynol i'r cwestiynau ymgynghori allweddol a ofynnwyd ynglŷn â'r Bil hwn. I hwyluso cyfeirio atynt, rwyf wedi gosod fy ymateb o dan bob un o'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor (Atodiad 1).

Yn gywir,

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

1. A oes angen Bil?

Adrannau 4, 5 a 6

Nid wyf yn cytuno bod angen y Bil hwn, nac yn credu y bydd yn cyflawni'r nodau polisi sydd ganddo mewn golwg. Er fy mod yn cytuno bod angen addysg ariannol yn ysgolion Cymru, rwyf o'r farn bod yr angen hwnnw'n cael ei fodloni'n ddigonol eisoes. Mae wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol ers 2008, o fewn mathemateg a hefyd yn y fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gyrfaedd a'r Byd Gwaith.

Mae sgiliau manwl yngl n â rheoli arian ac addysg ariannol wedi eu cynnwys yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRhC), a fu'n statudol ers Medi 2013. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgynghoriad yn agored, ac mewn partneriaeth ag Uned Addysg Ariannol Cymru.

Buom yn ymgynghori yn ddiweddar, ar ddiwygiadau i'r rhaglen astudio mathemateg, er mwyn gwreiddio'r FfLIRhC yn y rhaglen honno, sydd eto'n cynnwys cyfres fanwl o ddatganiadau sgiliau yngl n ag addysg ariannol yn yr elfen 'Rheoli arian'. Er enghraifft, mae'r elfen honno'n cynnwys datganiadau ar reoli arian parod, cymharu costau gwahanol fanwerthwyr, disgowntiau, cyllidebu, cynllunio ac olrhain cyfrifon cynilo, elw a cholled, cyfrifon banc, cardiau banc, TAW, cynilo, benthyca, cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid ac yswiriant. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014 a'i wneud yn statudol o Fedi 2015 ymlaen. Ar wahân i gydnabod bodolaeth y cwricwlwm presennol neu arfaethedig yn gyffredinol, prin bod Memorandwm Esboniadol y Bil yn dangos unrhyw ymwybyddiaeth o'r addysg ariannol sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm statudol.

Mae'r Bil hefyd yn cynnig adroddiad blynyddol gan Estyn ar addysgu addysg ariannol. Ar wahân i'r baich gwybodaeth a data y mae hyn yn ei greu, ac y cyfeiriat ato yn ddiweddarach, mae gennym brosesau cryfach eisoes ar gyfer asesu sgiliau addysg ariannol ein dysgwyr. Mae'r ysgolion yn adrodd wrth rieni am gynnydd eu plant yn yr FfLIRhC, sy'n cynnwys yr elfen 'Rheoli arian'. Mae'r profion rhifedd blynyddol ar gyfer dysgwyr rhwng Blynyddoedd 2 a 9 yn cynnwys cwestiynau ar sgiliau ariannol. Ac yn olaf, dechreuir addysgu'r cymwysterau TGAU newydd mewn Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yng Nghymru ym Medi 2015, a bydd y rheini'n cynnwys eitemau ar sgiliau llythrennedd ariannol.

Fy nghasgliad i yw fod y trefniadau presennol r gyfer y ddarpariaeth o gwricwlwm ac asesu yn gadarnach na dim a gynhwysir yn y Bil hwn. Gan hynny, yr unig ddiben a gyflawnir gan y Bil yn Adran 4 yw ysgrifennu'r geiriau 'addysg ariannol' mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae hynny beth bynnag yn ddiangen oherwydd bod addysg ariannol, am y rhesymau a roddais, yn cael ei haddysgu'n effeithiol eisoes yn y cwricwlwm yng Nghymru. Nid yw Adran 5 yn cyflawni ei nod polisi o ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil. Fodd bynnag, mae'r p er y cyfeirir ato yn adran 108 yn gymwys yn unig i bynciau craidd a sylfaen. Nid yw'r Bil yn gwneud "addysg ariannol" yn faes dysgu ar gyfer y cyfnod sylfaen, nac yn pwnc sylfaen ar gyfer y cyfnodau allweddol.

Effaith y cynigion yn y Bil yw gwneud “addysg ariannol” yn rhan o’r cwricwlwm sylfaenol nad oes pwerau ar ei gyfer sy’n ragnodi cynnwys yr hyn a addysgir mewn ysgolion. Yn yr ystyr hwnnw, byddai addysg ariannol yn debyg i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) neu Addysg Gysylltiedig â Gwaith; yn orfodol, ond byddai hyblygrwydd gan yr ysgolion i benderfynu sut y’i cyflwynid. Gallai Llywodraeth Cymru baratoi fframwaith anstatudol fel yn achos ABCh, ond ni fyddai gorfodaeth gyfreithiol ar ysgolion i ddilyn y fframwaith hwnnw. Byddai’r Bil, felly, yn ein tywys o sefyllfa lle mae cynnwys yr addysg ariannol wedi ei ragnodi mewn Rhaglen Astudio Mathemateg, i sefyllfa lle byddai addysg ariannol yn “bwnc” statudol mewn rhan o’r cwricwlwm sylfaenol na cheir rhagnodi ei gynnwys. Byddai hynny’n gadael “addysg ariannol” mewn gwannach sefyllfa na’r un bresennol.

Mae Adran 6, yn fy marn i, yn ddiangen ac yn dyblygu’r hyn y darperir ar ei gyfer eisoes mewn deddfwriaeth. Mae Adran 20 o Ddeddf Addysg 2005 yn gosod dyletswydd ar Estyn i roi gwybod i Weinidogion Cymru am ansawdd yr addysg a ddarperir mewn ysgolion, i ba raddau y mae’r addysg honno’n bodloni anghenion y disgyblion yn yr ysgolion hynny, a’r safonau addysgol a gyrhaeddir gan yr ysgolion hynny. Yn ychwanegol, mae Estyn dan ddyletswydd i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar ba bynnag faterion a bennir gan y Gweinidogion.

Yn ogystal, mae adolygiad annibynnol ar droed, o’r holl gwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru o dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson. Rwy’n bryderus fod y Bil hwn yn ceisio achub y blaen ar ganfyddiadau’r adolygiad hwnnw, gan orfodi ychwanegiad at y deddfwriaeth, beth bynnag fo casgliadau’r adolygiad hwnnw. Mae’r newid deddfwriaethol ychwanegol hwn yn un amheus ar y gorau, a buaswn yn dadlau y gallai’r Bil arfaethedig lesteirio yn hytrach na hyrwyddo addysg ariannol yng Nghymru.

Yn ychwanegol, hoffwn ddatrys y pryder a fynegir yn y Memorandwm Esboniadol, sef nad yw addysg ariannol yn rhan o gylch gorchwyl yr Athro Donaldson (paragraff 100). Ei gylch gorchwyl yw “... *mynegi gweledigaeth eglur a chydlynol ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol a’r trefniadau asesu yng Nghymru, o’r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4, gan gysylltu’n uniongyrchol â’n system gymwysterau newydd*”. Rwy’n pwysleisio bod hyn yn cwmpasu’r holl gwricwlwm – gan gynnwys sgiliau ariannol.

Adran 13

Mae adran 13 o’r Bil yn cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn eu hardaloedd yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr. Mae pryder difrifol a ellir gweithredu’r ddarpariaeth hon yn ymarferol, o ystyried nad oes perthynas uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch; nid oes gan awdurdodau lleol bwerau mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach na phrifysgolion, a fyddai’n galluogi’r awdurdodau i gyflawni dyletswydd o’r fath. Yn ein barn ni, nid oes modd i’r ddarpariaeth hon, yn y ffurf y’i drafftwyd, barhau’n rhan o’r Bil. Byddwn yn ymhelaethu ar y pwynt hwn yn nes ymlaen yn y llythyr hwn. Yn ychwanegol, nid ydym wedi’n hargyhoeddi bod angen deddfu ar y mater hwn, a thybiwn y byddai’n well ffocysu’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg ariannol mewn ffyrdd eraill. Mae’n ffaith bod ystod eang o ddarpariaethau ar gyfer addysg ariannol yn bodoli eisoes, yn rhan o’r gwasanaethau bugeiliol a chymorth llesiantol a ddarperir o fewn AB ac AU; a chredwn y gellid annog sefydliadau i wneud rhagor drwy’r mecanweithiau presennol megis Llythyr Cylch Gwaith CCAUC a/neu gynlluniau ffioedd, neu lythyr blaenoriaethau’r Gweinidog at Benaethiaid a Chadeiryddion corfforaethau AB.

2. A ydych o'r farn bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r amcanion a ddatganwyd, fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Esboniadol?

Cyfeiriaf yn bennaf at fy mhwynt blaenorol, sef bod yr amcanion a ddatgenir yn cael eu bodloni'n fwy effeithiol gan yr hyn sydd eisoes wedi ei sefydlu, neu a sefydlir yn fuan.

Yn ychwanegol, nid yw'r dystiolaeth yn cyfleu mai 'rhagor' o addysg ariannol yn y cwricwlwm yw'r ateb priodol – a sylwaf nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio wrthym beth, yn benodol, a olygir wrth 'ragor'. Mewn adroddiad gan OECD a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf, ar yr asesiad llythrennedd ariannol gan PISA ('*PISA 2012 Results, Students and Money: Financial Literacy Skills for the 21st Century*'), canfuwyd bod myfyrwyr a oedd yn perfformio ar lefelau uwch mewn mathemateg a/neu ddarllen hefyd yn perfformio'n well, yn gyffredinol, mewn llythrennedd ariannol. Yn syml, nid oes tystiolaeth y bydd ysgrifennu 'addysg ariannol' ar Ddeddf Addysg 2002 yn newid unrhyw beth o gwbl. Y peth gorau y gall Cymru ei wneud i wella'i llythrennedd ariannol yw gwella'i sgiliau mewn mathemateg a darllen. Mae'r rheini ymhlith fy mlaenoriaethau i, a byddai'n llawer gwell gennyf allu canolbwyntio adnoddau ar y sgiliau hynny, na'u dargyfeirio ar gyfer gofynion newydd er mwyn bodloni deddfwriaeth sylfaenol.

O ddarllen y Memorandwm Esboniadol, rwy'n dal yn ansicr beth y mae'r aelod sy'n cynnig yn awgrymu fyddai'r amser addysgu gorau neu'r dull addysgu gorau. Mae'r ymatebion i'r cais Rhyddid Gwybodaeth gan 81 (allan o 212) o ysgolion uwchradd yn nodi amrywiannau yn yr amseroedd addysgu; ond nid oedd hyn y cynnwys y 1,360 o ysgolion cynradd a chanol a oedd yn weddill. Mae'r sampl yn un pur fach i dynnu casgliadau ohono. Rwy'n edmygu'r modd y llwyddodd cynifer o ysgolion i gofnodi oriau penodol o addysgu addysg ariannol, yn enwedig os oedd addysg ariannol wedi ei gwreiddio ar draws gwahanol bynciau fel yr anogir yn FfLIRhC. Nid yw'n eglur i mi ychwaith sut y bydd newid lleoliad y gofyniad i addysgu addysg ariannol o fewn y gyfraith yn arwain at gyflawni amcanion y Bil.

I grynhoi, fel un sy'n cefnogi addysg ariannol yn gyffredinol, gofynnais i mi fy hunan ai deddfwriaeth sylfaenol fel hon yw'r ffordd orau i gyflawni amcanion y Bil, ynteu'r ddeddfwriaeth, mecanweithiau, cymorth a darpariaethau sy'n bodoli eisoes. Yn groes i'r casgliad yn y Memorandwm Esboniadol, ni allaf weld sut y bydd y Bil hwn yn cyflawni'r amcanion a ddatgenir.

3. A yw'r adrannau o'r Bil fel y'u drafftwyd yn addas ar gyfer gwireddu'r dibenion a ddisgrifir uchod. Os na, pa newidiadau y dylid eu gwneud yn y Bil?

Adrannau 4, 5 a 6

Rwyf wedi ymdrin â hyn yn yr adran flaenorol. Fy safiad presennol yw fod y Bil hwn yn ddiangen a bod y ddarpariaeth sy'n bodoli, ac yn yr arfaeth, yn fwy na digon at y dibenion a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol mewn cysylltiad ag Adrannau 4, 5 a 6 o'r Bil. Yn ddarostyngedig i drafod ymhellach gyda'm cydweithwyr, fy safiad yw y dylid newid y Bil i adlewyrchu'r dibenion hynny, yn unig, na ellir eu bodloni o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Ar gyfer hynny, bydd angen i'r aelod sy'n cynnig ddarparu rhagor o fanylion a gwell eglurder.

Fel y maent, nid yw Adrannau 4, 5 a 6 wedi f'argyhoeddi eu bod yn darparu budd digonol, os budd o gwbl, o ystyried y goblygiadau o ran cost ychwanegol ac amser.

Adran 13

Fel y'i drafftwyd, mae Adran 13 o'r Bil yn rhoi awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i "gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn [ei hardal] yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr'. Fel y nodwyd uchod yn y llythyr hwn, mae gennyf bryderon difrifol yngl n â'r ddarpariaeth hon. Prif bryder Llywodraeth Cymru yw nad oes gan awdurdodau berthynas uniongyrchol â chorfforaethau addysg bellach na phrifysgolion, a fyddai'n rhoi iddynt yr awdurdod i orfodi'r gofyniad hwn. Fel y cyfryw, nid fyddai'r ddyletswydd hon o fewn pwerau'r awdurdodau lleol i'w chyflawn, ac ni ellid ei gorfodi. Am rheswm hwnnw, ni allaf weld sut y gellir cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

Credaf hefyd fod perygl y gwelid y ddarpariaeth yn ei ffurf bresennol fel ymgais i ymyrryd â'r egwyddorion sylfaenol o annibyniaeth ac ymreolaeth sefydliadau addysg uwch, a'r safbwynt athronyddol y dylent gadw o hyd braich i lywodraeth. Deallaf o'r Memorandwm Esboniadol nad hynny, hwyrach, oedd diben gwreiddiol y ddarpariaeth; ond, fel y mae wedi ei drafftio ar hyn o bryd, dyna fyddai ei heffaith.

Gellid cymhwyso dadl gyffelyb i'r sefydliadau addysg bellach, a grëwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel cyrff annibynnol ac ymreolaethol i gyflenwi dysgu ôl-16. Mae gan y sefydliadau hyn gyrff llywodraethu sydd â statws elusennau a eithriwyd ac sy'n gyfrifol am genhadaeth y sefydliad. Mae'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r annibyniaeth hon drwy, ymhlith pethau eraill, ganiatáu mwy o reolaeth i'r sefydliadau ar y ffordd y'u llywodraethir.

Rwy'n bryderus hefyd ynghylch y ffordd amwys y drafftwyd yr adran hon. Nid oes diffiniadau o'r termau a ddefnyddir ac nid yw'n eglur pam y cynhwysir corfforaethau addysg bellach yn unig o fewn cwmpas y ddarpariaeth, yn hytrach na mathau eraill o sefydliadau addysg bellach, megis sefydliadau dynodedig. Yn yr un modd, ni ddarperir diffiniad o brifysgolion a'r sefydliadau y mae'n briodol eu cynnwys o fewn y term hwnnw.

Yn fy marn i, mae ffyrdd eraill, mwy effeithiol o ffocysu adnoddau ar addysg ariannol ar gyfer AB ac AU. Mae ystod eang o ddarpariaethau addysg ariannol yn bodoli eisoes o fewn AB ac AU. Mae sefydliadau AU eisoes yn darparu lefel sylweddol o gymorth ac arweiniad ariannol i'w myfyrwyr fel rhan o becyn cymorth llesiantol a bugeiliol. Mae'n bosibl hefyd annog sefydliadau AB ac AU i wneud rhagor drwy'r mecanweithiau presennol megis Llythyr Cylch Gwaith CCAUC a chynlluniau ffioedd yn hytrach nag ymdrechu i osod dyletswydd statudol arall ar awdurdodau lleol. Fel cyfrwng tebyg yn achos AB, gellir defnyddio llythyr blaenoriaethau'r Gweinidog at Benaethiaid a Chadeiryddion corfforaethau AB. Rwy'n argymhell yn gryf, felly, tynnu'r ddarpariaeth hon allan o'r Bil.

4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae cyrff yn ei wneud ar hyn o bryd a beth, os unrhyw beth, fydd effaith newidiadau o'r fath?

Bydd effaith y Bil yn dibynnu i raddau helaeth ar y newidiadau penodol a fydd yn tarddu ohono – ac mae'r rheini'n aneglur ar hyn o bryd. Rwyf yn ymhelaethu ar hyn isod:

Adrannau 4 & 5

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflenwi'r hyn a ddisgwylir gan Adran 4, a'i heffaith felly yw gwneud newid deddfwriaethol diangen, a allai lyffetheirio ymhellach gynlluniau

cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Cynnig tebyg sydd yn Adran 5. Rydym eisoes wedi manteisio ar bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol, i ddatblygu'r FfLIRhC a'r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg.

Ni fydd y consortia addysg rhanbarthol a'r ysgolion yn sylwi ar unrhyw newid, nac unrhyw fudd, o ganlyniad i'r newid yn y ddeddfwriaeth.

Os digwydd unrhyw newid yn strwythur neu gynnwys y cwricwlwm mewn cysylltiad â chynllunio, datblygu a gweithredu fframwaith addysg ariannol gwahanol ac ar wahân, nad yw eto wedi ei ganfod na'i nodi, effaith ychwanegol Adrannau 4 a 5 ar Lywodraeth Cymru fyddai'r canlynol:

Recriwtio a chadw arbenigw(y)r pwnc addas i baratoi'r fframwaith a'r cymorth ar gyfer y ddarpariaeth anstatudol

Datblygu'r ddarpariaeth honno ynghyd â chymorth ar gyfer ysgolion

Paratoi a chyhoeddi canllawiau a deunyddiau addysgu

Byddai goblygiadau o ran baich gwaith athrawon a goblygiadau ariannol oherwydd newid (hynny yw, *ychwanegu at*) Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), DPP a diwrnodau HMS (paragraff 107). Hyd y gwn i, nid oes capasiti dros ben o fewn HCA, ac felly byddai'r newidiadau yn sylweddol – o ran cynnwys yn ogystal â chostau.

Byddai'r rhain yn gyfuniad o gostau untro a chostau rheolaidd, a fyddai'n cael eu talu, yn ôl pob tebyg, o amlen gyllid fy adran i.

Bydd yr ysgolion yn wynebu gofyniad addysgu ychwanegol, ac yn cael adnoddau, deunyddiau a hyfforddiant ychwanegol yn gysylltiedig â hynny. Mae'n amlwg y disgwylir iddynt ddefnyddio rhai o'u diwrnodau HMS at y diben o hyfforddi, a gallai hynny gymryd lle hyfforddiant arall a gynlluniwyd – megis hyfforddiant llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, bydd yr ysgolion yn dibynnu'n bennaf ar y consortia addysg rhanbarthol am gyngor proffesiynol ac arweiniad. Os nad yw'r capasiti ar hyn o bryd yn ddigon i ymateb i'r galw, bydd rhad i'r consortia ei gaffael o'r tu allan. Ni fydd gan y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) adnoddau i ddiwallu gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r Bil hwn oni ellir darparu adnoddau ychwanegol, neu ailddyrrannu'r cyllid RhGG presennol i ddarparu ar gyfer y galw ychwanegol am gymorth i addysg ariannol.

Adran 6 – Adroddiad Blynyddol

Byddai Adran 6 yn gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adroddiad blynyddol ar addysgu addysg ariannol, ac o bosibl gwneud yn ofynnol ein bod yn casglu data ychwanegol a gwybodaeth arall. Ar gyfer y cylch adrodd blynyddol a fwriedir, mae'n debygol y gofynnir am ddata a gwybodaeth na phenderfynwyd yn eu cylch hyd yma. Yn olaf, os Estyn, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, fydd yn ymgymryd ag ysgrifennu'r adroddiadau hyn, bydd gofyn i'r corff hwnnw wario cyfran o'i adnoddau ar y baich arolygu ac adrodd a grëir.

Mae Estyn eisoes yn paratoi adroddiad ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru (adran 19 o Ddeddf Addysg 2005). Mae adroddiad Estyn yn seiliedig ar yr arolygiadau a ymgwymerwyd yn y flwyddyn flaenorol, o tua chweched ran o'r ysgolion a ddarparwyd hyfforddiant. Gosodir yr adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ei drafod gan yr Aelodau yn ystod y gwanwyn bob blwyddyn. Byddai paratoi ail adroddiad blynyddol ar un mater penodol, ar sail gwybodaeth o ffrâm amser wahanol (sef blwyddyn ariannol yn hytrach nag academiaidd) yn ddiangen, hwyrach yn peri dryswch, ac yn tynnu costau sylweddol ar

adeg pan fo'r cyllidebau dan bwysau cynyddol wrth geisio cyflawni'r ymrwymadau presennol. Mae'n amheus a fyddai adroddiad blynyddol yn cyfiawnhau gwariant o'r fath, drwy ddatgelu unrhyw gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fel y nodwyd uchod, mae p e'r gan Weinidogion Cymru eisoes i fynnu bod Estyn yn darparu cyngor ar ba bynnag faterion a bennir gan y Gweinidogion.

Yn ychwanegol, i ryw raddau, bydd Estyn yn adrodd am hyn hefyd yn ei adroddiad ar yr eitemau rhifedd sydd yn ei gylch gwaith, ac wrth adrodd ar fathemateg. Byddai angen datrys y dyblygu y byddai hyn yn i achosi

5. Beth yw'r rhwystrau posibl (os oes rhai) a allai atal darpariaethau'r Bil rhag cael eu gweithredu, a sut y mae'r Bil yn eu cymryd i ystyriaeth?

Rwyf wedi amlinellu nifer o faterion sy'n peri pryder ac a allai rwystro gweithredu darpariaethau'r Bil. Mae yna, fodd bynnag, bryder penodol ychwanegol yr hoffwn gyfeirio ato mewn perthynas ag Adran 6(3).

Dylid nodi, pe rhoddid y cyfnod lleiaf o rybudd o dan y Bil, na fyddai tri mis yn gyfnod hir iawn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd i wneud y gwaith hwn. Fel enghraifft, mae'r cylch gorchwyl blynyddol roddir i Estyn yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn Ionawr bob blwyddyn, ar gyfer gwaith sydd i'w gychwyn yn Ebrill a'i gwblhau yn ystod y mis Mawrth dilynol. Deallwn hefyd fod adroddiad blynyddol Estyn yn cymryd tua chwe mis i'w baratoi. Pe cyfarwyddid Estyn i wneud y gwaith sydd dan sylw, byddai angen rhoi cyfnod hwy o rybudd yn y flwyddyn gyntaf. Wedi hynny, gallai'r gwaith ddod yn rhan o'i amserlen flynyddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, ar gyfer hyn byddai angen naill ai adnoddau ychwanegol neu ddargyfeirio adnoddau o flaenoriaethau eraill. Pe gofynnid i ddarparwr gwahanol wneud y gwaith, byddai'n ofynnol rhoi cyfnod hwy o rybudd bob blwyddyn.

6. A oes gennyh unrhyw farn yngl n â'r modd y mae'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'r darpariaethau yn Adrannau 4, 5, 6 a 13 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'u pennir o dan y pwnc "*Education and Training*" ym mharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r paragraff hwnnw'n darparu fel a ganlyn:

"Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

*Exception—
Research Councils."*

7. Beth yw eich barn yngl n â phwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth?

Nid yw'r Bil, yn Adrannau 4 i 6 nac yn Adran 13, yn rhoi unrhyw bwerau newydd i wneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Adran 5 yn ceisio gwneud diwygiad mewn pwerau o'r fath sy'n bodoli eisoes, yn adran 108 o Ddeddf Addysg 2002. Credaf nad yw'r diwygiad yn cyflawni'r nod polisi o ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd o "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil. Mae'r p e'r yn adran 108 o Ddeddf 2002, fodd bynnag, yn gymwys yn

unig i bynciau craidd a sylfaen. Nid yw'r Bil yn gwneud "addysg ariannol" yn bwnc craidd nac yn bwnc sylfaen. Ni fydd y diwygiad, felly, yn cael unrhyw effaith gyfreithiol, ac ni fydd modd i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio na threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd o "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil.

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Mae Tabl 1 yn y Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif yr achosir cost untro o £1.45 miliwn am weithredu'r Bil, ynghyd â £4.534 miliwn yn flynyddol wedyn. Yn Nhabl 2, rhagamcenir mai'r costau dros y 5 mlynedd cyntaf o weithredu'r Bil fyddai £17.871 miliwn.

Costau – Adrannau 4 a 5

Yngl n ag adrannau 4 a 5 o'r Bil arfaethedig, gan ragdybio nad yw'r FfLIRhC a'r fframwaith rhaglenni astudio presennol yn ddigonol – mater nas profwyd hyd yma – er mwyn creu fframwaith, byddai angen inni fabwysiadu'r dull arferol o ddatblygu a chefnogi fframwaith anstatudol newydd. Rydym yn rhagdybio hefyd y bydd angen, rhywsut, ail-gynnal broses o gynhyrchu deunyddiau ar gyfer y sgiliau newydd, fel y gwnaem pan oedd Uned Addysg Ariannol Cymru yn weithredol.

Rydym yn amcangyfrif y gellir dadansoddi'r gost hon fel a ganlyn:

£400k – cost untro – amser arbenigwr pwnc, ymgynghori, hyffordd a deunyddiau enghreifftiol

£800k – dros gyfnod o bedair blynedd i gynhyrchu deunyddiau addysgu ar gyfer y cynnwys newydd

Rydym yn cefnogi llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn flynyddol drwy'n Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n darparu cyllid sylweddol i'r ysgolion a'r consortia addysg rhanbarthol. Mae'r consortia yn cael cyllid hefyd o ffynonellau eraill i gynorthwyo llythrennedd a rhifedd. Bydd rhaid neilltuo is-set o'r ffynonellau hyn i gynorthwyo unrhyw addysg ariannol dros ben yr hyn a ddarperir yn FfLIRhC a'r rhaglen astudio mathemateg.

Rydym hefyd yn cyllido Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) gwerth £16 miliwn dros bedair blynedd, i ddarparu galluoedd a chapasiti ychwanegol i ysgolion a chonsortia ar gyfer cyflenwi'r FfLIRhC. Mae'r cymorth cyfredol ar gyfer addysg ariannol wedi ei gynnwys yn hyn, a byddai'n anodd ei eitemeiddio. Fodd bynnag, pe byddid yn ychwanegu gofynion addysg newydd, mae'n bosibl y byddai angen rhaglen gymorth newydd, gan mai rhaglen am dymor penodedig yw RhGG. Naill ai hynny, neu byddai'n cael ei gynnal ar draul darpariaeth a gynlluniwyd eisoes. Os na ragwelir y bydd unrhyw ofynion ychwanegol, byddai'n rhaid gofyn pa fudd o gwbl a ddisgwylir o'r Bil arfaethedig hwn .

Costau – Adran 6

Yngl n â'r cynnig yn Adran 6, byddai i ymrwymo i baratoi adroddiad blynyddol ar un maes pwnc yn gosod pwysau ychwanegol ar yr adnoddau, ar adeg pan fo'r pwysau arnynt eisoes yn sylweddol; a gallai osod cynsail ar gyfer adroddiadau blynyddol ar bynciau neu faterion trawsbynciol eraill. Heb gynnydd yn yr adnoddau, ni allai Llywodraeth Cymru nac Estyn, fodloni gofyniad o'r fath.

Mae Estyn wedi cadarnhau y byddai'n bosibl integreiddio addysg ariannol o fewn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Byddai hynny, fodd bynnag, yn tynnu costau rheolaidd o tua £140,000 y flwyddyn, cyfwerth â gwariant oddeutu 1.2% o'u cyllid gyffredinol o

£11,664,000, er mwyn darparu gwybodaeth am lai nag 20% o'r ysgolion bob blwyddyn. Mae hwn yn swm sylweddol i'w wario ar un agwedd ar y cwricwlwm, a hynny ar adeg pan fo adolygiad llawer ehangach o'r Cwricwlwm yn cael ei gynnal. Amcangyfrifir y byddai'r costau untro hefyd oddeutu £50,300 fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 336).

Mae angen gwaith a dadansoddiad pellach cyn y ceir gwell amcan a yw'r costau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) o'r trefn maint priodol hyd yn oed, heb sôn am fod yn fanwl gywir. Os yw'n gywir, bydd gwario £3.5 miliwn y flwyddyn yn ffordd ddrud iawn o drin arian Llywodraeth Cymru mewn unrhyw amgylchiadau. Buaswn hefyd yn gofyn beth yr bwriedir ei aberthu er mwyn cyllido hyn.

Yn y Memorandwm Esboniadol, sylwaf mai Opsiwn 3 yn unig (sef yr opsiwn a ffefrir) sydd wedi ei gostio'n llawn. Er mwyn gwneud dadansoddiad llawn o gostau a buddion y Bil, buaswn yn disgwyl gweld dadansoddiadau o gost pob un o'r opsiynau. Rwy'n awgrymu y dylid, os oes modd, eitemeiddio pob adran yn yr AERh, gan y gallai gwahanol ffyrdd o weithredu fod yn briodol ym mhob adran.

Nid yw'r AERh yn adfyfrio'n ddigonol ar 'gost cyfle' pob un o'r opsiynau. Er enghraifft, byddai'r amser a dreulid ar sgiliau ariannol, dros ben yr hyn a ddisgwylir eisoes mewn ysgolion, yn amser a gymerid oddi ar yr ymrwymadau cwricwlaidd presennol. Nid yw'n eglur beth y byddid yn ei aberthu o ganlyniad. Yn ychwanegol, ni rodir ystyriaeth i gost cyfle na chost ariannol ail-flaenoriaethu'r diwrnodau HMS, y gofynion HCA newydd na'r gofynion DPP newydd. Cyfeirir yn gryno at y rhain ym mharagraffau 106 a 107 heb adfyfrio na manylu ymhellach. Buaswn yn petruso cyn cynnwys unrhyw beth mewn deddfwriaeth a fyddai'n gosod gofynion ychwanegol ar y gweithlu, heb ystyried y gofynion hynny yn briodol nac ymgynghori â'r gweithlu yn benodol. Nid wyf yn credu y byddai Bil yn addas i'w ddiben pe bai'n pasio ar y telerau hynny.

Buddion

Yngl n â'r adroddiad gan y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes (CEBR) y cyfeirir ato ym mharagraff 362, mae tri phwynt yr hoffwn eu codi.

Yn gyntaf, un o'r ffynonellau y mae'r adroddiad yn tynnu ohonynt yw'r papur academiaidd Barry, Lee a Miller (2003), '*Schooling, Literacy, Numeracy and Labour Market Success*'. O edrych yn fanylach, yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio bod y buddion yn dod o feddu'r sgiliau rhifedd a llythrennedd a gymhwysir mewn addysg ariannol, ac nid o'r addysg ariannol ei hunan. Mae'n ymddangos bod hyn yn ategu safiad PISA a Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi'r pwyslais ar rifedd a llythrennedd, ac yn gwreiddio addysg ariannol o fewn hynny.

Yn ail, ysgrifennwyd yr adroddiad hwn am y DU, ac nid am Gymru. Yn wyneb y gwahaniaethau eglur rhwng dulliau addysg yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ynghylch llythrennedd, rhifedd ac addysg ariannol, buaswn yn teimlo fy mod ar dir diogelach o lawer yn adolygu tystiolaeth o adroddiad mwy perthnasol, sydd â gwell ffocws. Credaf y byddai'n rhesymol gofyn am y dadansoddiad hwnnw cyn bo neb yn cynnig newid deddfwriaeth sylfaenol.

Ac yn olaf, mae dadansoddiad CEBR yn defnyddio methodoleg eithaf simplistig i asesu'r arbedion costau posibl o ganlyniad i gynnydd mewn addysg ariannol. Er enghraifft, mae'r prif fudd yn ymwneud ag annog pobl i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad, a thrwy hynny

leihau gwariant gan y llywodraeth pan ganfyddir bod cynilion yn annigonol. fodd bynnag, nid yw'r cyfrifiad hwn yn cydnabod y posibilrwydd o effeithiau economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â chynilo, megis gostyngiad mewn gwariant gan ddefnyddwyr.

Mewn adroddiad ar wahân ar Adolygiad o Wasanaethau Cyngori Llywodraeth Cymru, y dyfynnir ohono ym mharagraff 367 o'r Memorandwm Esboniadol, nodir y sylw canlynol ar y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth:

'The MoJ however have questioned the findings of the Citizens Advice work, highlighting concerns with the methodology employed and significance attached to the source figures that underpin the assumptions on which the findings are based upon. MoJ do recognise that early advice can be helpful in a range of contexts, however stress the practical help as opposed to legal advice.'

Buaswn yn awgrymu bod angen rhagor o dystiolaeth a manylion i ategu buddion y ddeddfwriaeth hon, cyn y gellir eu derbyn yn hyderus.

9. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch adrannau penodol o'r Bil ?

Adran 4, 5 and 6

Buaswn yn crynhoi fy safiad mewn perthynas ag Adrannau 4, 5 a 6 drwy ddweud na chefais fy argyhoeddi o fanteision deddfu yn y modd hwn, am y rhesymau canlynol:

- a. Hyd y gwelaf, rydym eisoes, o dan ein pwerau deddfwriaethol presennol, yn cyflawni'r gweithgarwch y mae'r Bil yn cynnig deddfu ar ei gyfer. Hyd yn oed pe na baem yn ymgymryd â rhai agweddau ar addysg ariannol, byddai'n fwy effeithiol defnyddio'r moddion presennol, yn hytrach na chreu gofyniad deddfwriaethol newydd.
- b. Mae'r newidiadau yn ymddangos yn creu baich gweinyddol ychwanegol, yn enwedig ynghylch y fframwaith anstatudol newydd a'r gofyniad i adrodd yn flynyddol, pan nad oes unrhyw fudd ychwanegol dirnadwy yn deillio yn benodol o'r gofynion hynny.
- c. Mae'r newid yn ymddangos yn un arwynebol, sy'n gosod 'addysg ariannol' mewn deddfwriaeth sylfaenol, er bod addysg ariannol eisoes wedi ei sicrhau mewn is-ddeddfwriaeth. Nid hon yw'r ffordd orau i ddefnyddio pwerau ac amser Llywodraeth Cymru.
- d. Nid wyf yn credu bod yr achos dros y ddeddfwriaeth wedi ei brofi, yn nhermau gweithredoedd sy'n bodloni'r angen a nodwyd ganddi, ac yn sicr, nid yn nhermau costau a buddion pob opsiwn a phob adran.
- e. Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, mae'r Bil arfaethedig ychydig yn gynamserol, o ystyried bod adolygiad annibynnol a phellgyrhaeddol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar droed dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson. Ffordd lawer mwy effeithiol o fodloni'r anghenion hyn o fewn y cwricwlwm fyddai goleuo a dylanwadu ar adroddiad yr Athro Donaldson.

Adran 13

Mae paragraff 199 o'r Memorandwm Esboniadol yn ymwneud ag Adran 13 o'r Bil. Mae'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol:

“ddefnyddio cyfleoedd megis y rhai a ddaw wrth iddynt asesu a yw pobl sy'n gwneud cais am leoedd addysg uwch yn gymwys i dderbyn cymorth i fyfyrwyr, i gynnig gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio at gyngor am faterion ariannol”.

Mae'r paragraff yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r newidiadau yn y modd yr asesir cymhwysra am gymorth myfyrwyr, a wnaed pan foderneiddiwyd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn 2014. O ganlyniad, ystyriwn fod y dull a gynigir yn ddiffygiol

Mae rôl gyfredol yr awdurdodau lleol o ran asesu cymhwysra myfyrwyr ar gyfer cymorth myfyrwyr statudol eisoes wedi ei chyfyngu i fyfyrwyr sy'n parhau â'u cyrsiau. Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n gyfrifol am asesu cymhwysra myfyrwyr newydd ar gyfer cymorth. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2014/15, bydd holl ymwneud yr awdurdodau lleol ag asesu hawlogaeth am gymorth myfyrwyr statudol yn peidio. O ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fydd yn gyfrifol am asesu'r hawlogaeth i pob myfyriwr, boed newydd neu'n parhau â'i gwrs.

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant,
Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Medi 2014

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Diolch am eich llythyr yn fy ngwahodd i gyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 1 Hydref. Rwyf i'n ddiolchgar am y cyfle i ddarparu fy nhystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil i chi cyn i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor (Atodiad 1).

Rwyf i wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth**Atodiad 1****Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu cam 1 o'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – Bethan Jenkins AC (Aelod Cyfrifol)****Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar Fil Bethan Jenkins fel Gweinidog y Llywodraeth sy'n arwain ar y Bil.

Cyflwyniad

Rwyf i'n deall fod prif fwriad y Bil yn un ataliol, sef mynd i'r afael â sefyllfa lle mae llawer o bobl yng Nghymru yn eu cael eu hunain mewn trafferthion ariannol oherwydd diffyg gwybodaeth a sgiliau wrth reoli arian. Er fy mod yn gwbl gefnogol i'r nod o gryfhau addysg ariannol a llythrennedd ariannol, nid wyf i'n ystyried y bydd y cynigion yn y Bil hwn yn arwain at unrhyw beth ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei gyflenwi ar hyn o bryd. Yn wir rwyf i'n pryderu y gallai'r Bil dynnu oddi ar gyflenwi llinell flaen gan ei fod yn cyflwyno prosesau newydd, ac, o bosibl, biwrocratiaeth ychwanegol heb esboniad clir o'r canlyniadau mesuradwy sy'n cael eu ceisio.

Ni fydd gorfodi pob awdurdod lleol i gael strategaeth cynhwysiant ariannol ar wahân yn arwain at wasanaethau mwy integredig, ond yn hytrach mae mewn perygl o osod cynhwysiant ariannol yn ei seilo ei hun. Ffordd fwy cydlynol o weithio yw i'r Byrddau Gwasanaeth Lleol ystyried Cynhwysiant Ariannol fel rhan o'u hasesiadau llesiant lleol. Bydd yr asesiadau hyn yn cyfrannu at osod yr amcanion yn y Cynlluniau Llesiant Lleol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cyllid i Ganolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer y fenter "Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol". Rhan o'r fenter hon yw cynorthwyo awdurdodau lleol i feddwl am fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol. Mae gwaith yr Hyrwyddwyr yn canolbwyntio ar annog yr holl awdurdodau lleol i gynnwys cynhwysiant ariannol yn rhan o'u proses cynllunio strategol arferol, yn hytrach na datblygu strategaeth ar wahân.

Eglurodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009 ac yn hytrach na datblygu strategaethau unigol i bob awdurdod lleol, mae gwaith ymarferol yn cael ei wneud dan themâu'r strategaeth genedlaethol hon. Un ffocws yn ystod y cyfnod diweddar fu edrych ymhle mae'r angen mwyaf (am gyngor i helpu i hyrwyddo cynhwysiant ariannol) ac annog gwell cynllunio a chydlynu gwasanaethau i lenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft mae hyn yn cael ei wneud wrth symud argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cynghori, a gyhoeddwyd yn 2013, yn eu blaen. Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried barn y sector am yr hyn y dylid ei sefydlu i helpu i sicrhau'r ddarpariaeth orau o ran cyngor ar ddyledion ac arian yng Nghymru. Mewn ymateb i'r adolygiad, yn fuan bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu Rhwydwaith Gwasanaethau Cynghori Cenedlaethol i ddatblygu agwedd fwy strategol â ffocws ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau cynghori ar draws Cymru, gan gynnwys cynghori ar faterion yn ymwneud â rheoli arian a dyledion. Bydd y rhwydwaith hwn yn edrych ar alluogi

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

trawsgyfeirio effeithiol, gwell defnydd o adnoddau arbenigol a'r gallu i ddatblygu ymateb hyblyg i angen lleol.

Bydd ffocws ymarferol i'r Rhwydwaith a'i nod fydd creu cysylltiadau gyda rhwydweithiau cynhwysiant ariannol lleol lle mae'r rheini'n bodoli, a lle nad oes strwythurau o'r fath yn bodoli, darparu arweiniad a chymorth er mwyn caniatáu i rwydweithiau gael eu sefydlu ar lefel fwy lleol. Nod sylfaenol hyn yw gwell gwasanaeth i'r dinesydd. Fe wyddom fod Rhwydweithiau Cynghori Lleol da mewn rhai rhannau o Gymru eisoes, sy'n dod â darparwyr cyngor gwahanol at ei gilydd i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o anghenion trigolion lleol; sut y caiff gwasanaethau eu trefnu i ddiwallu'r angen hwn a chanfod ffyrdd i wella'r gwasanaethau. Drwy'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru (gan gydweithio gyda chyllidwyr allweddol y gwasanaethau cynghori yng Nghymru, darparwyr cyngor a chynrychiolwyr cleientiaid) yn awyddus i annog mwy o'r math hwn o weithredu ymarferol ac uniongyrchol i ymdrin ag angen.

Rwyf i'n cydnabod bod angen i ni wneud yn siŵr fod pobl yn gallu manteisio ar gyngor o'r ansawdd cywir gan y bydd hyn yn cael effaith ar gynhwysiant ariannol ac, unwaith eto, mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hyn. Argymhellodd yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori y dylid datblygu Fframwaith o Safonau Cynghori a Gwybodaeth drwy'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, yn seiliedig ar nodau ansawdd a safonau cyfredol. Argymhellodd hefyd y dylid datblygu cofrestr genedlaethol o ddarparwyr gwasanaeth sy'n diwallu'r Fframwaith Safonau. Ceir consensws ymhlith y sector a'r cyllidwyr fod angen rhagor o waith i ddatblygu dealltwriaeth ac agwedd fwy cyson o ran ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir a'r dull y mae darparwyr yn ei ddefnyddio i fesur ac adrodd ar y canlyniadau. Caiff ymchwil ei gynnal i ddeall y darlun cyfredol yn nhermau'r safonau ansawdd gwahanol yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chyngor. Gyda chanfyddiadau'r gwaith hwn yn ei harwain, bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno safon newydd neu fframwaith o safonau. Bydd hyn yn golygu nid yn unig y gallwn fod yn glir fod ansawdd yn bwysig, ond y gallwn fod yn gliriach fyth ynglŷn â'r hyn mae ansawdd yn ei olygu ac y bydd pobl yn gwybod ble i fynd i gael cyngor am ansawdd.

Rwyf am ymdrin nawr â chwestiynau penodol y pwyllgor:

1. Oes angen y Bil hwn?

Gellid cyflawni'r cynigion yn y Bil gyda deddfwriaeth gyfredol. Er enghraifft gallai Awdurdod Lleol ddefnyddio ei bwerau llesiant cyffredinol yn adran 2(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") i lunio strategaeth i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Mae hyn yn darparu pŵer i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n debygol o lwyddo i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal. Gellid dadlau bod hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn dod o dan hyrwyddo llesiant economaidd a chymdeithasol yr ardal. Yn ogystal, mae adran 3(5) Deddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddilyn unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru cyn ymarfer ei rym. Gallai arweiniad o bosibl ymdrin â hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Hefyd mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd ar hyn o bryd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (“y Mesur”) i greu strategaeth gymunedol yn ymwneud ag amcanion tymor hir ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (“Bil Cenedlaethau'r Dyfodol”) sydd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar am ddirymu darpariaethau sy'n ymwneud â strategaethau gymunedol gan gynnig gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol newydd sy'n cael eu paratoi gan fyrdau gwasanaethau lleol. Er bod Bil Cenedlaethau'r Dyfodol o bosibl yn agored i'w ddiwygio fel rhan o ystyriaeth y Cynulliad, gellid defnyddio nifer o ddarpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynir gan Awdurdodau Lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

Mae'r gyfraith ar y cwricwlwm yng Nghymru wedi'i gosod yn Rhan 7 Deddf Addysg 2002 (“Deddf 2002”); mae adran 101 Deddf 2002 yn gosod gofynion y Cwricwlwm Sylfaenol yng Nghymru. Mae'r Cwricwlwm Sylfaenol hwnnw'n cynnwys nifer o elfennau gwahanol gan gynnwys Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y cyfnod sylfaen, yr ail, trydydd a phedwerydd cyfnod allweddol a'r cwricwlwm lleol. Mae'r pynciau penodol sy'n ffurfio rhan o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru wedi'u gosod yn adrannau 105 a 106 Deddf 2002. Gelwir y pynciau hyn yn bynciau sylfaen a chraidd.

Ceir pŵer yn adran 108 Deddf 2002 i Weinidogion Cymru ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i sefydlu meysydd dysgu, canlyniadau dymunol, trefniadau asesu rhaglenni addysgol ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae'r adran honno hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru osod mewn is-ddeddfwriaeth raglenni dysgu, targedau cyrhaeddiad a threfniadau asesu ar gyfer y pynciau sylfaen a chraidd yn y cyfnodau allweddol. Yn ei hanfod, mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r hyn sy'n gorfod cael ei addysgu a sut y caiff ei asesu. Mae'n ffordd o allu gosod Cwricwlwm Cenedlaethol cyflawn i Gymru. Mae'n werth nodi bod y pŵer yn adran 108 Deddf 2002 wedi cael ei ddefnyddio i wneud y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn rhan statudol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Felly, mae gan Weinidogion Cymru bwerau helaeth eisoes o fewn deddfwriaeth addysg sy'n bodoli i sefydlu trefniadau cwricwlwm ac asesu'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol ar gyfer y pynciau y mae angen eu haddysgu yn y cyfnodau addysg hynny. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau o fewn deddfwriaeth addysg gyfredol i ychwanegu meysydd dysgu eraill at y cyfnod sylfaen a phynciau sylfaen newydd at gwricwlwm cenedlaethol y cyfnodau allweddol drwy is-ddeddfwriaeth. Felly rwyf i'n ystyried bod adrannau 4 a 5 y Bil yn dyblygu'n diangen.

Mae'r Bil yn rhagnodi y dylai strategaeth cynhwysiant ariannol gynnwys hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheolaeth ariannol ar-lein (boed drwy lyfrgelloedd neu fel arall). Fodd bynnag mae Adran 7 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 (“Deddf 1964”) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod llyfrgell (sef yn ymarferol pob Awdurdod Lleol drwy rinwedd adran 4 y Ddeddf honno) i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon; mae adran 8 Deddf 1964 yn darparu na fydd unrhyw dâl yn cael ei godi gan awdurdod llyfrgell am gyfleusterau llyfrgell sydd ar gael gan yr awdurdod, oni phennir hynny mewn rheoliadau a gaiff eu

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Ilunio gan Weinidogion Cymru¹ - ar hyn o bryd nid yw Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell (Cymru a Lloegr) 1991 ("Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell") yn cynnwys y cyfryw ddarpariaeth.

Mae Deddf 1964 a'r Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell yn darparu bod llyfrgelloedd ar hyn o bryd yn cael codi am gyswllt rhyngrwyd fodd bynnag gallai'r sefyllfa honno newid, gan fod gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol i ddiwygio'r Rheoliadau hynny a gellid eu hymarfer i atal llyfrgelloedd rhag codi am gyswllt gwe.

Mae Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, yn amlinellu'r hawliadau craidd y dylai gwasanaethau llyfrgell gyhoeddus eu darparu. Mae hyn yn cynnwys "*defnydd am ddim o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi.*"

Yn olaf, ceir swyddogaethau deddfwriaethol cyfredol sydd ag effaith debyg i adrannau 7 ac 11 y Bil, sef darpariaethau dan Ddeddf Plant 1989 a Rheoliadau Plant (Gadael Gofal) (Cymru) 2001. Ceir pwerau hefyd y gellid eu defnyddio dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 unwaith y daw'r Ddeddf honno i rym mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

2. Ydych chi'n credu bod y Bil, fel mae wedi'i ddrafftio, yn cyflawni'r amcanion Datganedig fel yr eglurwyd yn y Memorandwm Esboniadol ac

3. Ydy adrannau'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn briodol i sicrhau'r dibenion a ddisgrifir uchod, ac os nad ydynt, pa newidiadau sydd eu hangen ar y Bil?

Er gwaethaf fy marn fod y Bil hwn yn ddiangen, rwyf yn dal i fod heb fy argyhoeddi fod y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn cyfleu'r bwriadau polisi a osodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ategol. Er enghraifft rhaid i strategaeth cynhwysiant ariannol Awdurdodau Lleol egluro sut y byddai'r awdurdodau'n defnyddio eu pwerau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol unigolion sy'n byw yn eu hardaloedd. Caiff 'cynhwysiant ariannol' ei ddiffinio fel y gallu i fanteisio ar wasanaethau ariannol ac addysg ariannol ar gost resymol. Nid yw'r berthynas arfaethedig rhwng endidau masnachol ac awdurdodau lleol wrth ymarfer y ddarpariaeth hon yn glir; pwy sy'n penderfynu beth yw cost resymol ar gyfer gwasanaeth ariannol, ac ai effaith hyn yw bod yr Awdurdod Lleol yn '*hyrwyddo*' cynhyrchion masnachol? A fydd Awdurdodau'n dod dan bwysau gan fanc, er enghraifft, am beidio â hyrwyddo ei gynhyrchion diweddaraf yn ymwneud â benthyciadau y mae'r banc yn ystyried eu bod ar gael am gost resymol?

Gan droi at adran 5 y Bil, rwyf i'n credu bod yr Aelod Cyfrifol yn ystyried y gallai Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn dan adran 108(3) Deddf Addysg 2002, gan osod rhaglen o astudio, targedau cyrhaeddiad a threfniadau asesu ar gyfer addysg ariannol. Fodd bynnag, er bod adran 4 y Bil yn cynnig y dylid gosod addysg ariannol fel gofyniad newydd yn y Cwricwlwm Sylfaenol (drwy ei hychwanegu at adran 101

¹ Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac wedi hynny i Weinidogion Cymru drwy rinwedd paragraff 30 Atdolen 11 Deddf Llywodraeth Cymru Act 2006

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Deddf 2002), nid yw'r Bil yn ei osod fel maes dysgu ar gyfer y cyfnod sylfaen nac yn bwnc sylfaen ar gyfer unrhyw un o'r cyfnodau allweddol. Mae'r pŵer i osod y trefniadau cwricwlwm ac asesu drwy orchymyn dan adran 108(3) yn gymwys ar gyfer meysydd dysgu a phynciau sylfaen yn unig.

Ymhellach, mae'r Bil yn ceisio gosod dyletswydd i ymgynghori ar orchymynion addysg ariannol, ond mae gwneud hynny'n peri dyblygu diangen gan nad yw'n ystyried adran 117 Deddf 2002. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r bobl hynny y credant sy'n briodol wrth wneud gorchymyn dan adran 108 yn gosod canlyniadau dymunol neu raglenni addysg ar gyfer y cyfnod sylfaen neu dargedau cyrhaeddiad neu raglenni astudio ar gyfer y cyfnodau allweddol.

Rwyf i'n bryderus fod rhai o'r darpariaethau yn adran 9 sy'n ymwneud â chynnwys strategaeth cynhwysiant ariannol Awdurdodau Lleol yn amwys. Er enghraifft, nid wyf i'n sicr beth yw 'goblygiadau ac effeithiau masnachu stryd a galwadau oer', na beth yw'r cysylltiad rhyngddynt â llythrennedd ariannol (nad yw'n cael ei ddiffinio), ac nid yw'n glir a yw cyswllt am ddim â'r rhyngwyd cyfan yn rhywbeth sydd i'w hwyluso, ynteu gyswllt â gwasanaethau addysg a rheolaeth ariannol yn unig. Nid yw'n glir chwaith pa addysg ariannol sydd i'w darparu ar-lein a chan bwy.

Ceir enghraifft arall lle nad yw'r Bil fel y'i cyflwynir o reidrwydd yn cwrdd â'r bwriad polisi yn adran 12 y Bil. Dan adran 12(1) rhaid i Awdurdod ddangos ble i ddod o hyd i gyngor am reolaeth ariannol ac o dan adran 12 (2) caiff yr Awdurdod Lleol ddarparu cyngor am reolaeth ariannol os nad yw'n credu bod y cyngor hwn ar gael yn rhesymol fel arall. Felly, gallai sefyllfa godi lle mae'r Awdurdod Lleol yn credu nad oes cyngor ar gael yn rhesymol yn ei ardal, ond yn penderfynu peidio â darparu'r cyfryw gyngor ei hun. Fel y mae wedi'i ddrafftio, nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n sicrhau bod cyngor rhesymol yn cael ei ddarparu o fewn ardal yr awdurdod.

Dan adran 13, rhaid i Awdurdod Lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn ei ardal yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr. Rwyf i'n bryderus am y ddarpariaeth hon. Nid oes gan Awdurdodau Lleol berthynas uniongyrchol gyda phrifysgolion na chorfforaethau addysg bellach a fyddai, yn ei thro, yn rhoi'r awdurdod iddynt orfodi'r gofyniad hwn. Nid yw'n ddyletswydd a fyddai o fewn pwerau Awdurdod i'w chyflawni, ac ni fyddai modd gorfodi'r ddyletswydd. Rwyf i hefyd yn bryderus am yr amwysedd o ran drafftio'r adran hon: nid oes diffiniadau o'r termau a ddefnyddir; un math o sefydliad addysg bellach yn unig yw corfforaethau addysg bellach, ac nid yw'n glir pam nad oes rhai eraill wedi'u cynnwys; mae'n cyffwrdd ag egwyddor sylfaenol annibyniaeth ac ymreolaeth addysg uwch a'i safle hyd braich oddi wrth y llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod ffyrdd eraill, mwy effeithiol i ganoli adnoddau ar addysg ariannol, mewn addysg uwch ac addysg bellach. Eisoed ceir amrywiaeth eang o ddarpariaeth addysg ariannol mewn sefydliadau addysg uwch a phellach yng Nghymru, fel rhan o'r gwasanaethau bugeiliol a lles.

4. Sut fydd y Bil yn newid yr hyn mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd a pha effaith fydd y newidiadau hyn yn ei gael, os o gwbl?

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Mae gennyf bryderon am osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnwys gwybodaeth ar eu gwefan yn cyfeirio pobl at ble y gallent dderbyn cyngor am reolaeth ariannol. Gallai hyn edrych fel pe bai'r awdurdod yn cymeradwyo'r darparwyr cyngor lleol y mae'n eu rhestru ar y wefan, felly byddai angen rôl monitro ar gyfer yr awdurdodau lleol a allai fod â goblygiadau o ran adnoddau ac o bosib symud ffocws i ffwrdd o gefnogi gwaith llinell flaen. Byddai dyletswydd fel hon hefyd yn arwain at ddyblygu gwaith gyda'r hyn sy'n cael ei wneud eisoes ar draws Cymru drwy wefan MoneyMadeClear, sy'n cael ei chynnal gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth am amrywiaeth o ddarparwyr cyngor a cheir dolenni at wefannau eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, sy'n cynnig cyngor annibynnol am ddim ar reolaeth ariannol a dyled.

5. Beth yw'r rhwystrau arfaethedig ar gyfer rhoi darpariaethau'r Bil ar waith a sut mae'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt?

Fel y nodais uchod ceir sawl maes pryder o ran drafftio'r bil a chredaf nad oes modd rhoi adrannau penodol o'r Bil ar waith yn eu ffurf bresennol. Mater i'r Aelod Cyfrifol yw esbonio sut i oresgyn y rhain.

1. Oes gennych chi farn am y modd y mae'r Bil yn dod dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae angen ystyriaeth ofalus ar ddarpariaethau'r Bil, yn enwedig fel y mae wedi'i ddrafftio, er mwyn pennu a allent o bosibl ddod o dan yr eithriad penodol canlynol yn Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sef "gwasanaethau ariannol, yn cynnwys busnes buddsoddi, bancio a chymryd adneuron, cynlluniau ac yswiriant buddsoddi ar y cyd". Nodaf ar y pwynt hwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o'r fath.

7. Beth yw eich barn ar y Pwerau yn y Bil i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth?

Fel yr amlinellwyd uchod, gellir ymdrin ag addysg a chynhwysiad ariannol eisoes o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Er enghraifft, ceir sgiliau manwl yn ymwneud â rheoli arian ac addysg ariannol yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd sydd wedi bod mewn grym ers mis Medi 2013. Cafodd y rhain eu datblygu mewn partneriaeth ag Uned Addysg Ariannol Cymru, a thrwy ymgynghoriad agored.

Hefyd yn ddiweddar rydym ni wedi ymgynghori ar ddiwygiadau a wnaed i'r rhaglenni astudio cyfredol y rhoddwyd grym cyfreithiol iddynt drwy is-ddeddfwriaeth. Yn benodol mae gan y rhaglen astudio mathemateg, sydd â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi ymwreiddio ynddi, set fanwl o ddatganiadau sgiliau'n ymwneud ag addysg ariannol o fewn yr elfen 'Rheoli arian'. Er enghraifft mae'r elfen hon yn cynnwys datganiadau yn ymwneud â defnyddio arian parod, cymharu costau gan wahanol fanwerthwyr, gostyngiadau, cyllidebu, cynllunio a thracio cyfrifon cynilo, elw a cholled, cyfrifon banc, cardiau banc, TAW, cynilo, benthyg, cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid ac yswiriant. Caiff hon ei chyhoeddi ym mis Hydref 2014, a bydd yn statudol o fis Medi 2015.

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Er mwyn bod yn drylwyr, hoffwn gynnig sylwadau ar y darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth o fewn y Bil:

- a. *Adran 6(2) a (3)*: Ymddengys fod Adran 6 yn dyblygu'r hyn sydd i bob pwrpas eisoes wedi'i ddarparu mewn deddfwriaeth. Mae Adran 20 Deddf Addysg 2005 yn gosod dyletswydd ar Estyn i hysbysu Gweinidogion Cymru am ansawdd yr addysg a ddarperir mewn ysgolion, i ba raddau mae'r addysg a ddarperir yn diwallu anghenion y disgyblion yn yr ysgolion hynny a'r safonau addysgol a gyflawnir gan yr ysgolion hynny. Yn ogystal, mae dyletswydd ar Estyn i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar y materion hynny a bennir ganddynt.

Yn ogystal, mae'r grym yn y Bil i 'gyfarwyddo' Arolygydd i baratoi'r adroddiad yn gyfyngedig iawn ei natur, ac nid oes unrhyw ddisgresiwn i Weinidogion Cymru allu pennu sut y dylai'r Arolygydd gynnal yr adroddiad, na beth y dylid ei gynnwys ynddo.

Mae hefyd yn anarferol i baratoi adroddiad ar gynnydd drwy gyfarwyddyd. Mae gan Weinidogion Cymru nifer o bwerau cyfeirio mewn deddfwriaeth addysg ond mae'r rhain yn gymwys pan fydd y person a gyfarwyddir (corff llywodraethu ysgol neu Awdurdod Lleol) wedi ymddwyn yn afresymol neu'n anghyfreithlon. Yn yr achosion hynny mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r cyfryw gyfeiriad y gellir ei orfodi drwy orchymyn llys. Nid yw'r Bil yn gwneud hyn, ac felly nid yw'n glir sut y gellid ei orfodi'n gyfreithiol ac nid yw'n glir chwaith ai'r bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth yw y dylid ei gorfodi drwy orchymyn llys. Nid yw'n glir chwaith ai'r bwriad polisi yw y dylai bod modd ymarfer y pŵer i gyfeirio drwy is-ddeddfwriaeth ynteu yn hytrach drwy gyfarwyddyd gweithredol y gellir ei orfodi drwy'r llysoedd.

Yn olaf, nid yw'r dull gweithredu i'w weld yn rhoi ystyriaeth briodol i gynllun statudol cyfredol o bwerau a dyletswyddau Estyn fel y'i heglurir yn Neddf Addysg 2005.

- b. *Adran 9(2) and (3)*: dan y darpariaethau hyn gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau, a gaiff eu llunio yn dilyn ymgynghori gydag Awdurdodau Lleol, ddiwygio cynnwys rhagnodedig strategaethau cynhwysiant ariannol a wnaed dan adran 9(1) y Bil.

Er gwaethaf fy marn fod strategaeth o'r fath yn ddiangen, i'r graddau bod darpariaeth yn cael ei gwneud rwyf i'n ystyried y cynnig sy'n caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth benderfynu beth y dylid ei gynnwys yn y strategaeth yn dderbyniol. Mae hyn oherwydd y bydd yn caniatáu ystyriaeth o'r dirwedd newidiol; fodd bynnag mae gennyf bryderon am y ffordd y mae'r pŵer wedi'i ddrafftio, o ystyried fod y pŵer yn adran 9(2) yn eang iawn. Drwy basio'r Bil dylai'r Cynulliad fod yn fodlon ei fod yn gallu dirnad yr hyn y mae pŵer yn debygol o gael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Byddai diddordeb gennyf i wybod sut mae Aelod Cyfrifol y Bil yn rhagweld sut y dylid defnyddio'r pŵer hwn ac ym mha amgylchiadau, fel bod posib i'r

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Llywodraeth ystyried a yw'r modd y mae'r ddarpariaeth hon wedi'i drafftio yn addas i'r diben.

- c. *Adran 10*: mae hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi arweiniad am strategaethau cynhwysiant ariannol ac yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddilyn unrhyw arweiniad a gyhoeddir. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a'i gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddilyn unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru cyn ymarfer eu pŵer, ac felly rwyf i'n ystyried bod y pŵer y darperir ar ei gyfer yn y Bil yn ddiangen.

Darpariaethau cychwyn

Rwyf i wedi ystyried yn ofalus y ddarpariaeth cychwyn yn y Bil, ac yn cynnig y sylwadau canlynol:

- d. Yn gyntaf cynigir y byddai gorchymyn cychwyn yn cynnwys darpariaethau cychwyn, trosiannol, darfodol neu arbed yn unig yn ddarostyngedig i weithdrefn y Cynulliad. Mae hyn yn anarferol. Mae'r Cynulliad eisoes wedi cymeradwyo pwnc y Ddeddf drwy ei phasio, felly ni chredaf y byddai craffu pellach yn briodol. Y dull safonol yw nad yw gorchymynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn, ar y sail eu bod yn rhoi ar waith ddarpariaethau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cynulliad. Mae'r un rhesymeg yn berthnasol, yn benodol, i ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed, a gaiff eu cynnwys mewn gorchymyn cychwyn i sicrhau gweithrediad cywir y Ddeddf sy'n dod i rym, a sicrhau ei fod yn glir pryd fydd yr hen ddeddf a'r ddeddf newydd yn gymwys. Felly mae fy mhryder cyntaf yn ymwneud â'r *egwyddor* a ddylai gorchymyn cychwyn fod yn ddarostyngedig i weithdrefn y Cynulliad.
- e. Mae fy ail bryder yn ymwneud â'i defnydd ymarferol. Nid yw'n glir beth fyddai'r weithdrefn pe bai'r Cynulliad yn pasio cynnig diddymu, drwy fod y gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, unwaith i unrhyw orchymyn cychwyn gael ei wneud a dod i rym. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru osod gorchymyn yn dirymu'r gorchymyn cychwyn; ni fyddai hyn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed tra bo'r ddarpariaeth mewn grym, ac ni fyddai'n 'dadwneud' y cychwyniad, ond byddai'n cael gwared ag effaith unrhyw ddarpariaethau trosiannol a fyddai'n golygu bod sefyllfa'r unigolion hynny a effeithiwyd gan y gyfraith yn aneglur iawn.
- f. Yn drydydd, mae adran 14(3) yn cyfeirio at orchymyn dan adran 14(2)(b), ond mae'r pŵer i greu'r gorchymyn wedi'i gynnwys yn adran 14(1)(a).
- g. Yn olaf, mae adran 14(4) y Bil yn darparu y bydd darpariaethau'n dod i rym ym mis Ionawr 2018 os na fyddant mewn grym ar yr adeg honno. Mae hyn yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru i benderfynu pryd mae'r amgylchiadau'n iawn i gychwyn darpariaethau'r Bil. Nid wyf i'n cefnogi'r ddarpariaeth hon.

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Nid wyf i'n ystyried bod y ddarpariaeth cychwyn hon fel mae wedi'i drafftio yn briodol.

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Yn gyffredinol nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi archwilio'r opsiwn y gellid cyflawni darpariaethau'r Bil hwn gyda Deddfwriaeth sy'n bodoli. Er enghraifft, nid yw'r cyfle i ddatblygu'r elfennau addysg ariannol presennol yn y cwricwlwm (heb fod angen deddfwriaeth) wedi'i ymchwilio'n llawn.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried costau a buddiannau'r opsiwn a ffefrir yn unig (Opsiwn 3). Dylid ehangu'r dadansoddiad i alluogi cymhariaeth o gostau a buddiannau cymharol pob un o'r opsiynau a nodwyd. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cynllunnir ail gymhwyster mathemateg TGAU mewn rhifedd a chaiff llythrennedd ariannol ei gynnwys fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r cwricwlwm. Gellid disgwyl i'r newidiadau hyn gyflawni o leiaf rai o'r buddiannau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad yn awgrymu y bydd y cynigion yn creu rhai costau ychwanegol cymharol uchel; byddai'n ddefnyddiol gallu deall beth fyddai buddion ychwanegol y cynigion (y tu hwnt i'r rhai a gyflawnir gan y polisïau presennol).

Nid yw'r cwestiwn a oes unrhyw gostau cyfle'n gysylltiedig â'r darpariaethau addysg ariannol wedi'i archwilio'n llawn, er enghraifft pa bwnc/pynciau neu weithgareddau fydd yn cael eu colli/lleihau i ddarparu amser ar gyfer yr addysg ariannol hon. Mae'r Asesiad yn awgrymu y gellid defnyddio dyddiau hyfforddiant mewn swydd i hyfforddi athrawon i gyflwyno addysg ariannol ond gellid tybio bod rhywfaint o werth i'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar ddyddiau hyfforddiant mewn swydd.

Byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn elwa o gael rhagor o fanylion yn ymwneud â rhai o'r cyfrifiadau cost. Yn benodol, sut mae dadansoddi'r costau blynyddol a phontio a gyflwynir ym mharagraff 303? Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, mae para 301 yn datgan bod y costau'n seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan un Awdurdod Lleol. Mae'r sampl bach hwn yn codi cwestiynau a yw'r data yn cynrychioli'r sefyllfa ar draws Cymru ac a yw'n briodol i raddio'r costau hynny ar sail yr un achos hwnnw. Mae'r Asesiad yn cydnabod bod y costau hyn yn 'amcangyfrifon bras' a bod angen rhagor o waith.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif cost datblygu strategaethau cynhwysiant ariannol yn ymddangos yn rhesymol (yn cynnwys y nifer o bobl sydd ynghlwm â'r gwaith, yr ymrwymiad amser a gwerth yr amser hwnnw) er unwaith eto, mae'r gwir ffigurau'n seiliedig ar wybodaeth a gafwyd gan Awdurdodau Lleol unigol. Hefyd, a fydd Awdurdodau Lleol yn gorfod ymgynghori ar eu strategaethau cynhwysiant ariannol a/neu eu cyhoeddi? Os felly, beth fyddai cost hyn?

Pa fewnbwn fu gan gyrff trydydd sector yn datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac ydy'r rhanddeiliaid hyn yn fodlon â'r amcangyfrifon costau ym mharagraffau 334-337?

Swyddogol-Sensitif: Deddfwriaeth

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn crynhoi'r asesiadau effaith cydraddoldeb a hawliau plant ond a yw'r asesiadau effaith penodol eraill, megis prawfesur gwledig a'r asesiad cystadleuaeth wedi'u cwblhau?

Materion eraill

O ran elfennau gofal cymdeithasol y Bil, mae gennyf rai syniadau cychwynnol am gwestiynau hawliau dynol posibl - sef anghydraddoldeb triniaeth (rhwng gwahanol ddsbarthiadau o'r rhai sy'n gadael gofal) a phryder a yw hyn yn gydnaws â gofynion Erthygl 14 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Nid yw'r Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol presennol yn egluro pam y cynhwysir categorïau 1 - 3 (a hepgor 4 - 6). Mae hepgor 4 ychydig yn wahanol am na fydd y dosbarth hwn o bobl ifanc fyth dan 18 oed; ond mae hepgor y bobl ifanc berthnasol yng nghategoriâu 5 a 6 i'w weld yn seiliedig ar ddiffyg dealltwriaeth o ddarpariaethau Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Serch hynny, mater i'r Aelod Cyfrifol yw cyfiawnhau ei phenderfyniad i bennu rhai categorïau o bobl ifanc yn unig. Nid wyf wedi gofyn i fy swyddogion ystyried hyn mewn dyfnder.

Eitem 3

Cyngor Ar Bopeth Cymru
Citizens Advice Cymru



Ymateb i Ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) - Medi 2014

Cyngor ar Bopeth Cymru

1.1 Elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yw Cyngor ar Bopeth. Mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae yna 20 o aelodau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, pob un yn aelod o Cyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Dau amcan Cyngor ar Bopeth yw:

- rhoi cyngor i bobl ar y problemau sydd ganddynt
- gwella'r polisiau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

1.2 Mae addysg ariannol yn dod yn rhan sylweddol gynyddol o waith y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i gyflawni drwy ein Rhaglen Sgiliau Ariannol am Oes a sefydlwyd yn 2002 mewn partneriaeth â Prudential. Yn 2013, darparodd 80 y cant o ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru (16 canolfan) wasanaethau gallu ariannol yn eu cymunedau lleol, gydag ychydig mwy (17 canolfan) yn gwneud neu'n bwriadu gwneud gwaith gallu ariannol yn 2014.

Mae'r canolfannau yn darparu mentrau gallu ariannol yn uniongyrchol i'r rhai sydd eu hangen ac i weithwyr rheng flaen hefyd e.e. staff cymdeithasau tai sy'n ymwneud â phobl ar incwm isel a/neu mewn grwpiau agored i niwed. Derbyniodd 4,900 o bobl hyfforddiant uniongyrchol (wyneb yn wyneb) yng Nghymru yn 2013 gydag 11,000 arall yn elwa wrth i weithwyr rheng flaen drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i'w cleientiaid.

1.3 Cyngor ar Bopeth Cymru sydd â'r prif gontract ar gyfer darparu Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb yng Nghymru a'r sefydliad arweiniol ar gyfer darparu Prosiect Cyngor ar Ddyledion Wyneb yn Wyneb ledled Cymru. Ariennir y ddau brosiect gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS). Rhoddwyd y contract Cynghori Ariannol cychwynnol am dair blynedd ac mae wedi'i ymestyn am ddwy flynedd arall nes diwedd Mawrth 2016. Yn ystod 2013/14, darparodd y gwasanaeth bron i 6,400 o sesiynau (120 y cant o darged y prosiect) mewn dros 175 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, yn cynnwys ysbytai, archfarchnadoedd a llyfrgelloedd.

- 1.4 Yn ogystal â'r uchod mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn rheoli Prosiect Canlyniadau a Rennir Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, a ddechreuodd ym mis Hydref 2013 ac sydd i fod i orffen ym mis Mawrth 2015. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r 36 o'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru nad oedd ganddynt wasanaethau allgymorth pwrpasol yn y gymuned cyn hyn i ddarparu cyngor ar ddyledion, cyngor ar fudd-daliadau lles (yn cynnwys cynyddu incwm) neu ddarparu gallu ariannol. Mae gwaith gallu ariannol yn cael ei gyflawni mewn pedair ardal ar hyn o bryd - Caerdydd (15 lleoliad allgymorth); Merthyr Tudful (6 lleoliad); Torfaen a Chonwy (5 lleoliad yr un).

C1: A oes angen Bil i roi i bobl yng Nghymru y wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i reoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol?

- 2.1 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru). Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r newidiadau niferus i fudd-daliadau a gyflwynir ar hyn o bryd ac yn y blynyddoedd nesaf (yn enwedig credyd cynhwysol) yn golygu ei bod hi'n bwysig i bobl gael dealltwriaeth well o faterion ariannol.
- 2.2 Dangosodd gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru ym mis Gorffennaf 2014 fod aelwydydd ledled Cymru yn parhau i wynebu pwysau ariannol. Canfu'r ymchwil fod 70 y cant o oedolion Cymru'n parhau i boeni fod costau byw yn codi a bod dros hanner (58 y cant) yn cael trafferth i dalu biliau ac ymrwymadau credyd, sy'n codi i ddau draean (67 y cant) ymysg y rhai sydd yng ngradd gymdeithasol C2/DE¹.
- 2.3 Mae ein hadroddiad diweddar '[Un dydd ar y tro](#)' hefyd yn edrych ar effaith gronol diwygio lles ar hawl wyr budd-daliadau yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gan y rhwydwaith Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn ogystal ag ymchwil ansoddol bwrpasol a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru i ystyried y 'profiad ymarferol' o'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau a sut mae pobl yn teimlo am eu gallu i reoli eu dyfodol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos sut mae'r newidiadau'n cael effaith negyddol yn bennaf ar fywydau'r hawl wyr, yn enwedig y rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Maent hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw darparu cymorth cyfannol i hawl wyr, yn cynnwys cysylltu gwybodaeth am newidiadau i fudd-daliadau gyda chyngor ar

¹ http://www.citizensadvice.org.uk/index/pressoffice/press_index/press_2014080702.htm

sut i ddiwallu anghenion gallu ariannol/cymorth i gyllidebu (a mathau eraill o gyngor).

- 2.4 Profwyd gwerth gwella gallu ariannol pobl yn ystod gwerthusiadau annibynnol o'r mentrau addysg ariannol a weinyddir gan Cyngor ar Bopeth. Dros y degawd diwethaf mae gwerthusiadau wedi dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi bod yn gymorth cyson i wella hyder a sgiliau pobl i reoli arian. Nodwyd amryw o 'fanteision cymdeithasol' ehangach hefyd fel llai o straen, gallu cynllunio ar gyfer cyflogaeth, gallu cynnal tenantiaeth neu forgais, mwy o hyder fel defnyddiwr a gallu cefnogi ffrindiau a theulu. Mae buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol hefyd yn dod ag elw ariannol gwirioneddol, nid yn unig i aelwydydd unigol ond i'r economi leol gydag effaith lluosydd o fwy o alw am nwyddau a gwasanaethau².
- 2.5 **Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu y byddai deddfwriaeth yn fuddiol ar gyfer meysydd penodol yn y Bil, ond ei bod hi'n bosibl defnyddio mecanweithiau a deddfwriaeth cyfredol mewn meysydd eraill i gyflawni nifer o amcanion y Bil.**

Darparu addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir (adrannau 4 a 5)

- 2.6 Mae addysg ariannol wedi'i chynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer disgyblion 7 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ers mis Medi 2008, ym mhynciau Mathemateg, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a gyrfaoedd a Byd Gwaith (i ddisgyblion 11 i 19 oed) yn bennaf. Cryfhawyd hyn ymhellach drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- 2.7 Rydym yn llwyr gefnogi'r datblygiadau hyn ac yn croesawu'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru. Yn hyn o beth, mae Cymru wedi bod ymhell ar y blaen i Loegr sydd newydd ddechrau addysgu addysg ariannol yn ffurfiol drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Lloegr h.y. o fis Medi 2014.
- 2.8 Monitro a gwerthuso effeithiol fydd yr unig ffordd o wybod a yw'r dulliau cyfredol yn llwyddiannus ai peidio. O ganlyniad, roeddem yn bryderus am ganfyddiadau adroddiad 'Materion Ariannol' Estyn (o 2011) a oedd yn dangos y diffyg cysondeb wrth ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion ledled Cymru. Rydym yn cymeradwyo'n gryf y dull ysgol gyfan o ddarparu addysg ariannol ac roeddem yn siomedig mai dim ond lleiafrif o ysgolion oedd "*wedi mynd ati'n ofalus i gynllunio a mapio cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol mewn pynciau neu destunau ar draws y cwricwlwm*" ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

² 'From small change to lasting change: Financial Skills for Life 2002-2012', Cyngor ar Bopeth a Prudential (Mai 2012)

- 2.9 Rydym yn cydnabod gwerth rhoi statws statudol i addysg ariannol yn y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru (yn debyg i ABCh a Gyrfaoedd a Byd Gwaith) fel yr argymhellir yn y Bil, gan y gallai hyn gyfrannu at sicrhau cydraddoldeb a chysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol o'i gwneud yn ofyniad cyfreithiol, gall datblygiadau diweddar a pharhaus a newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru wneud cryn dipyn i fynd i'r afael â darpariaeth anghyson.

Rydym felly'n credu y gallai fod yn bwysicach canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau pendant yn cael eu cyflwyno i fonitro effeithiolrwydd gofynion cyfredol y cwricwlwm mewn perthynas ag addysg ariannol yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys mesur yr effaith ar wybodaeth ac ymddygiad disgyblion (gweler ei hymateb i C3 hefyd).

- 2.10 Rydym yn cytuno'n gryf bod cyfraniad gan a chydweithredu rhwng y sectorau statudol a phreifat a'r trydydd sector yn allweddol i lwyddiant gwaith addysg ariannol. Er ein bod ni'n credu y gellir cyflawni hyn drwy waith partneriaeth effeithiol nid ydym yn gwrthwynebu cynnwys darpariaeth yn y Bil i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion sydd ag arbenigedd berthnasol ym maes gwasanaethau ariannol a rheoli ariannol (adran 5).

Adroddiad blynyddol (adran 6)

- 2.11 Mae materion sy'n gysylltiedig ag adran 6 yn cael eu trafod o dan gwestiwn 3.

Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (adrannau 7 ac 11)

- 2.12 Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Llais Defnyddwyr Cymru³ yn 2010⁴ yn cadarnhau pwysigrwydd darparu addysg ariannol glir, wedi'i threfnu'n dda i bobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau gofal awdurdodau lleol cyn iddynt symud o ofal i fyw'n annibynnol.
- 2.13 Er i'r gwaith ymchwil ganfod tystiolaeth o arferion da, dangosodd y canfyddiadau hefyd fod effeithiolrwydd darpariaeth gwybodaeth ariannol gan awdurdodau lleol yn gyfyngedig ac anghyson mewn llawer o achosion.

³ Ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gynrychioli defnyddwyr o Llais Defnyddwyr i'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth (yn cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes defnyddwyr.

⁴ 'O Ofal i Ofid? Sut mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal' Llais Defnyddwyr Cymru (Mawrth 2011)

- 2.14 Credwn ei bod hi'n hanfodol bod anghenion gallu ariannol person ifanc sydd dan ofal awdurdod lleol yn cael eu hystyried gydol ei amser mewn gofal, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynllun gofal a chymorth a'i gynllun llwybr, wrth iddo/i baratoi i adael gofal. Credwn hefyd y dylid adolygu anghenion o'r fath yn rheolaidd o 16 oed ymlaen (e.e. 18 oed a 21 oed) i nodi unrhyw anawsterau ariannol ac y dylid cyfeirio'r person ifanc at gymorth priodol.
- 2.15 O ran plant sy'n derbyn gofal, mae adran 83 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi y dylai rheoliadau amlinellu beth ddylid ei gynnwys mewn cynllun gofal a chymorth ac y dylid adolygu cynlluniau o'r fath yn rheolaidd. Mae Adran 107 hefyd yn datgan y dylai cynllun llwybr nodi'r cyngor a'r cymorth y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i'r unigolyn ifanc (categoriâu 1 i 4) unwaith y bydd yn 16 oed.
- 2.16 **Byddem yn croesawu'r diwygiad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gynnwys gofynion o'r fath ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn derbyn addysg ariannol briodol fel rhan o'u cynlluniau gofal.**

Cyngor ar reolaeth ariannol (adrannau 12 a 13)

- 2.17 Mae nodiadau 190 i 194 y Memorandwm Esboniadol yn nodi pa mor bwysig yw hi i bobl dderbyn cyngor o ansawdd da ar reolaeth ariannol a phwysigrwydd trefniadau atgyfeirio effeithiol i sefydliadau cyngor a chymorth lleol sy'n gallu darparu hyn. Mae gan nifer o ganolfannau cyngori yng Nghymru drefniadau atgyfeirio da iawn gyda'u hawdurdod lleol e.e. Cyngor Caerffili.
- 2.18 Rydym yn croesawu cynigion y Bil i helpu awdurdodau lleol i gyfeirio pobl sydd angen cyngor ar faterion ariannol at ddarparwyr cyngor lleol priodol ond nid ydym yn credu bod y cynigion, fel y'u diffinnir yn adrannau 12 a 13, yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at gyngor am ddim o safon.
- 2.19 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr cyngor eraill yng Nghymru i ddatblygu safonau ansawdd cenedlaethol ledled y sector cyngori yn unol ag argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cyngori.
- 2.20 **Os yw'r Bil yn mynd yn ei flaen credwn y dylai gynnwys gofyniad i bob sefydliad sy'n gwneud gwaith gallu ariannol fodloni'r safonau ansawdd cenedlaethol hyn, pan fyddant ar waith.**

Dyletswydd awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10)

- 2.21 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cytuno bod angen ymrwymiad i ddatblygu amcanion cynhwysiant ariannol ar y lefel uchaf mewn awdurdodau lleol ond yn credu bod angen ymgymryd â'r gwaith hwn fel rhan o'r agenda trechu tloedi ehangach. Dylai hyn helpu i sicrhau bod gweithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn cael eu cysylltu â'r rhai sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â materion tai/digartrefedd; diwygio lles; tloedi plant; tloedi tanwydd; a strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol.
- 2.22 **Credwn y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio cyfrifoldebau statudol sy'n bodoli eisoes (e.e. dyletswyddau tloedi plant) ac amrywiaeth o ddulliau eraill yn fwy effeithiol i wella cynhwysiant ariannol ymysg y boblogaeth leol, heb orfod cyflwyno deddfwriaeth ychwanegol.** Er enghraifft, drwy'r gwaith a wneir gan hyrwyddwyr gwrthtloedi ym mhob awdurdod lleol; yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys cynlluniau integredig sengl; Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, Rhaglen Cefnogi Pobl a fforymau eraill fel y Byrddau Gwasanaethau Lleol, a lle maent yn bodoli, partneriaethau cynhwysiant ariannol a Byrddau Diwygio Lles lleol.

C2: A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 3.

C3: A yw adrannau'r Bil, fel y'u drafftwyd, yn briodol i gyflwyno'r amcanion a ddisgrifir uchod? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?

Addysg ariannol mewn ysgolion

- 3.1 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod arweiniad cryf mewn ysgolion a darparu cymorth priodol i athrawon i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol (o ran eu hyfforddiant eu hunain a datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau allanol) yn hanfodol er mwyn sicrhau bod darpariaeth addysg ariannol yn gwella mewn ysgolion yng Nghymru.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan bob athro ac athrawes allu ariannol. Mae cynhyrchion a gwasanaethau ariannol newydd hefyd yn golygu bod anghenion gallu ariannol yn faes sy'n esblygu lle mae angen cynnal y lefelau o sgiliau a chymhwysedd. Felly, bydd gan bobl sy'n darparu addysg ariannol anghenion hyfforddi cyson.

- 3.2 Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, gwnaeth Uned Addysg Ariannol Cymru (WFEU), a oedd mewn grym rhwng mis Medi 2008 a mis Awst 2013, waith pwysig i ddarparu cymorth angenrheidiol i ysgolion ac athrawon fel y gallent ddarparu addysg ariannol. Bu o gymorth hefyd drwy nodi a hyrwyddo arferion da a deunyddiau priodol ar gyfer addysgu addysg ariannol, yn cynnwys adnoddau dwyieithog.
- 3.3 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod yna alw o hyd am y swyddogaethau yr arferai'r Uned eu cyflawni. Mae adnoddau a deunyddiau ar gael o hyd i ysgolion drwy wefan Dysgu Cymru a rhagwelir y gallai'r rhain fod yn sail i unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol gan y Bil. Waeth a yw'r Bil yn mynd yn ei flaen ai peidio, bydd hi'n bwysig adolygu deunyddiau o'r fath yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac o ansawdd da.
- 3.4 Rydym hefyd yn nodi'r Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd a gyflwynwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2014. Bydd angen iddo gynnwys rhagor o gyfleoedd i gynorthwyo athrawon ac ysgolion i ddarparu addysg ariannol.
- 3.5 Er bod y datblygiadau hyn yn cael eu croesawu, nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fyddant yn ddigonol i sicrhau darpariaeth addysg ariannol effeithiol mewn ysgolion na sut y bydd safonau ansawdd yn cael eu cynnal. Fel y soniwyd ym mharagraff 2.9, rydym yn credu bod monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn gofynion cyfredol a dyfodol y cwricwlwm yn hanfodol.
- 3.6 Mae'r gwerthusiadau o'n gwaith gallu ariannol ni wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt. Fodd bynnag, ar draws darpariaeth addysg ariannol yn gyffredinol nid oes syniad pendant ar hyn o bryd pa ymyriadau sy'n gweithio orau, yn enwedig yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae gwahanol sefydliadau wedi bod yn ystyried y mater hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Deallwn fod y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn datblygu fframwaith gwerthuso cyffredin i ddarparu canllawiau ac adnoddau ymarferol i ddarparwyr addysg ariannol fel y gallant gynnal gwerthusiadau o effaith fel rhan o Strategaeth Gallu Ariannol y DU. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn.
- 3.7 **Os yw'r Bil yn mynd yn ei flaen byddem yn argymhell cynnwys gofynion ychwanegol ar gyfer mesur a monitro cynnydd o dan adran 6.** Rydym yn cytuno y dylai monitro o'r fath fod yn elfen allweddol o'r drefn arolygu gyfredol a byddem yn cefnogi Estyn i arwain y gwaith hwn.
- 3.8 Credwn y dylid diffinio cynnwys yr adroddiad cynnydd blynyddol arfaethedig yn gliriach ar wyneb y Bil. Dylai hyn gynnwys lefel cysondeb y dull gweithredu drwy'r ysgol gyfan a chanlyniadau mesuradwy fel hyfforddiant a chymorth i athrawon; effaith ar ymwybyddiaeth ac ymddygiad disgyblion, ac adolygiad o ansawdd a

pherthnasedd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir, yn cynnwys adnoddau dwyieithog lle bo'n briodol.

Addysg ariannol yn y gymuned

- 3.9 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn credu nad yw'r drafft o'r Bil fel ag y mae yn cynnwys manylion ar sut y bydd cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd ariannol yn cael eu cryfhau mewn lleoliadau cymunedol, yn enwedig i rieni (i gefnogi gwaith ysgolion) ac oedolion sy'n fwy tebygol o wynebu anfantais.
- 3.10 Mae canolfannau Cyngor ar Bopeth yn cynnal sesiynau gallu ariannol wedi'u targedu at grwpiau gwahanol – yn cynnwys y rhai ar incwm isel; aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith cyflogedig; pobl ddigartref a phobl agored i niwed sy'n cael eu cartrefu; pobl â phroblemau iechyd meddwl; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gweithwyr mudol.

Fel yn achos gwaith Cyngor ar Bopeth gydag ysgolion (gweler 5.1 isod) gall rhaglenni o'r natur hwn ddibynnu ar ffrydiau ariannu ansicr neu dargedu grwpiau penodol yn unig.

Er bod y Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb (gweler 3.1) wedi gwella'r cyngor ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn sylweddol, rydym yn dal i bryderu nad oes digon o gyngor, gwybodaeth a chymorth ar gyfer gallu ariannol ar gael i rai grwpiau agored i niwed, er enghraifft troseddwy'r a'u teuluoedd.

C4: Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?

- 4.1 Mae Cyngor ar Bopeth mewn lle delfrydol i gyflawni gwaith gallu ariannol mewn ysgolion ond mae cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn gallu bod yn ysbeidiol a gall cyfyngiadau cyllidwyr olygu bod rhaid targedu gwaith o'r fath at grwpiau eraill, er enghraifft oedolion di-waith neu rieni sengl. Bydd lefelau ymgysylltu hefyd yn dibynnu ar allu'r ganolfan gynghori unigol. Ledled Cymru a Lloegr yn 2013 dim ond 21 y cant o ganolfannau oedd yn darparu addysg ariannol oedd yn gweithio gydag ysgolion, o gymharu â 89 y cant a oedd yn gweithio gydag oedolion mewn lleoliadau cymunedol.
- 4.2 Yng Nghymru, roedd pedair canolfan (20 y cant) yn gweithio gydag ysgolion yn ystod 2013, yn cynnwys gwaith uniongyrchol gyda disgyblion. Yn gyffredinol, mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ad-hoc ac mewn ymateb i wahoddiad gan ysgolion, er bod rhai canolfannau'n cynnig eu gwasanaeth i ysgolion.

4.3 Pe bai addysg ariannol yn cael statws statudol yn y cwricwlwm sylfaenol byddem yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y galw gan ysgolion am sesiynau gallu ariannol gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth. Er y byddem yn croesawu hyn byddai angen rhagor o arian i gefnogi gallu pob canolfan unigol i reoli'r cynnydd disgwyledig hwn mewn galw.

4.4 Byddem hefyd yn disgwyl i ganolfannau a darparwyr cyngor trydydd sector weld cynnydd yn y galw am gyngor ar reoli arian a mathau eraill o gyngor o bosibl e.e. cyngor ar ddyledion, os bydd y dyletswyddau newydd arfaethedig ar awdurdodau lleol yn cael eu cyflwyno, yn cynnwys mwy o gyfeirio at wasanaethau eraill.

Fel y nodwyd ym mharagraff 2.17, er ein bod yn croesawu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, a bod trefniadau o'r fath ar waith mewn rhai ardaloedd, mae angen ystyried materion gallu posibl o ran bodloni unrhyw gynnydd mewn galw. Mae hyn yn arbennig o allweddol ar adeg pan fo ganolfannau ledled Cymru eisoes yn gweld mwy o alw am eu gwasanaethau yn sgil diwygio'r system les a hinsawdd ariannol sy'n parhau i fod yn anodd.

C5: Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4.

C6: A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

C7: Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth?

Dim sylw.

C8: Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4.

C9: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?

Dim sylw pellach.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

CYPE(4)-23-14 – Papur 4

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Tystiolaeth gan : Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Ariannol a Chynhwysiant (Cymru)

Amdanom ni

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ledled y Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gan y llywodraeth er mwyn gwella lles ariannol pobl. Mae ein cyngor diduedd am ddim ar gael ar-lein, a thros y ffôn, gwe-sgwrs neu wyneb yn wyneb gydag un o'n Cynghorwyr Ariannol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sector cyngor ar ddyledion er mwyn gwella ansawdd, cysondeb ac argaeledd cyngor ar ddyledion.

Ein hamcanion statudol craidd, fel y cyflwynir yn Neddf Gwasanaethau Ariannol 2012, yw gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd am faterion ariannol (gan gynnwys system ariannol y Deyrnas Unedig), a gwella gallu'r cyhoedd i reoli eu materion ariannol eu hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag eraill er mwyn cyflawni hyn. Telir am y Gwasanaeth gan ardoll statudol ar ddiwydiant y gwasanaethau ariannol, a godir trwy'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Fel y corff statudol ar gyfer galluogrwydd ariannol mae gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol gyfrifoldeb neilltuol am helpu pobl i ddeall eu harian a gwneud y mwyaf ohono, yn uniongyrchol a thrwy hwyluso gwaith eraill, ac am alluogi pobl i gael mynediad at gyngor safonol ar ddyledion pan brofir anawsterau. Mae'r Gwasanaeth wedi chwarae rôl amlwg hefyd wrth gydgordio ac arwain datblygiad y Strategaeth Galluogrwydd Ariannol ar gyfer y DU.

Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn rhinwedd ein rôl statudol ar gyfer gwella dealltwriaeth a gwybodaeth pobl o faterion ariannol ac ar gyfer gwella gallu pobl i reoli eu materion ariannol eu hunain.

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Crynodeb gweithredol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cefnogi'r farn bod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth ddysgu addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Cadarnhaodd ymchwil fod agweddau tuag at arian yn cael eu llunio yn gynnar ac y gall ymyraethau o fewn fframwaith teuluol ehangach ddylanwadu ar y newid ymddygiad hirdymor a ddymunir. Awgrymwn y dylid ystyried galluogrwydd ariannol fel rhan o'r rhaglenni rhianta megis Rhaglen Dechrau'n Deg a'i ymgorffori i mewn i 'Ddysgu fel Teulu a'r Fenter Teuluoedd yn Gyntaf.

Ar gyfer Awdurdodau Lleol, yn hytrach na strategaeth newydd, rhowch ystyriaeth i fecanwaith presennol megis y Cynllun Integredig Sengl, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol oherwydd yna gellid cysylltu

canlyniadau ar draws y gwahanol agendâu megis diwygiad lles, cam-drin domestig, diogelwch cymuned, cefnogi pobl, cynhwysiant digidol, trechu tlodi a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy ddefnyddio fframwaith gwerthuso a rennir, gellid monitro a gwerthuso unrhyw waith adrodd ar ymyrraeth galluogrwydd ariannol mewn ysgol neu gan yr awdurdod lleol mewn modd cyson, a gellid cymharu'r siwrai a deithiwyd ar draws y DU rhwng yr holl asiantaethau drwy ddefnyddio'r fframwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

Cyflwyniad

Nid yw'r newid angenrheidiol er mwyn dod yn wlad sydd â galluogrwydd ariannol, yn dasg hawdd o bell ffordd. Ar hyn o bryd nid yw 50% o bobl yn llunio cyllideb personol¹ ac mae hyd at 84% o oedolion y DU yn cyfaddef nad ydynt yn darllen yr amodau a thelerau llawn wrth gymryd cynnyrch ariannol.² Mae un o bob chwech o bobl yn cael anhawster adnabod y balans ar gyfriflen banc³. Mae 48% o oedolion ledled y DU yn cyfaddef iddynt fynd i ddyled yn sgil eu bywydau cymdeithasol yn unig⁴. Heb alluogrwydd ariannol cryf, mae pobl sydd ag adnoddau ariannol yn gwneud penderfyniadau annoeth hyd yn oed sydd yn eu rhoi mewn sefyllfa fregus o galedi gwirioneddol os daw anawsterau ariannol neu newidiadau mewn amgylchiadau.

Gyda'r ffeithiau hyn wedi eu hamlygu, mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cefnogi dyheadau'r Bil, er credwn fod y datrysiadau a gynigir angen eu datblygu ymhellach er mwyn cwrdd â'r canlyniadau a ddymunir er budd pobl ac economi Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol newydd lansio'r Strategaeth Galluogrwydd Ariannol ddrafft ar gyfer y DU www.fincap.org.uk. Mae gwella galluogrwydd ariannol plant a phobl ifanc Cymru a ledled y DU yn elfen bwysig iawn o'r Strategaeth Galluogrwydd Ariannol gyffredinol.

Ffeithiau allweddol a mewnwelediad ar blant a phobl ifanc.

- Mae plant yn barod i ddysgu pethau sylfaenol ynglŷn ag arian erbyn iddynt gyrraedd tair oed.
- Mae agweddau ac ysgogiadau at arian mor bwysig â sgiliau a gwybodaeth. Mae datblygiad yr ymennydd yn dangos bod nifer o'r agweddau ac ymddygiadau greddfodol wedi'u sefydlu erbyn i blentyn gyrraedd saith oed.
- Rhieni a gwarchodwyr sy'n cynnig y cyfle gorau i weld, siarad a dysgu am arian yn ddyddiol. Mae ysgolion a sefydliadau eraill yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddysgu hefyd.
- Rhaid i sgiliau a gwybodaeth newydd fod yn berthnasol a'u cyflwyno'n gyflym er mwyn eu deall a'u dysgu.
- Mae negeseuon i ddefnyddwyr a dylanwadau cymdeithasol yn annog pobl ifanc i wario yn hytrach na chynilo, hyd yn oed os nad yw'r arian ganddynt. Mae pobl ifanc yn meddwl mai diflas yw bod yn ddoeth gydag arian.
- Mae siarad yn agored ac yn onest ynglŷn ag arian yn parhau i fod yn bwnc i'w osgoi yn y cartref, gyda ffrindiau neu'n gymdeithasol.
- Mae gan nifer o bobl ifanc anawsterau ariannol. Mae 31% o bobl ifanc 18-24 oed mewn gorddyled⁵. Mae'r elusen ddyledion StepChange yn adrodd cynnydd o 85% rhwng 2010-2013 yn y nifer o rai 18-24 oed sy'n ceisio cymorth, gyda dyledion ansicredig o £5,000 ar gyfartaledd

¹ Arolwg Traciwr Galluogrwydd Ariannol, 2013/14, Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

² Cynhaliwyd yr ymchwiliad gan One Poll ar ran Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ym mis Awst 2014 ymhlith 3,000 o oedolion yn y DU

³ Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig, Tachwedd 2013, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

⁴ Ymchwiliad a gwblhawyd gan One Poll ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ym mis Mehefin 2014 ymysg 3,000 o oedolion yn y DU

⁵ Ibid

- Mae diffyg cytundeb ar draws y sector ynghylch yr hyn sydd angen ei gyflawni a sut y dylid mesur effaith ac effeithiolrwydd ymyriadau.

Ymchwil i Edifeirwch Ariannol

Yn y ddogfen hon cyflwynir darn o ymchwil sydd newydd ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor hanfodol o bwysig yw hi i helpu pobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion, ac mae cyrraedd 18 oed yn adeg allweddol.

Canfu'r ymchwil hwn bod annibyniaeth mor bwysig i rai 16-21 oed, ond anaml iawn maent yn gwerthfawrogi bod cyfrifoldeb ariannol yn elfen bwysig o ddod yn annibynnol.

Agweddau ac ymddygiadau rhai rhwng 16-21 oed

Agweddau	Ymddygiadau
Byw am heddiw a phoeni yfory	Byw y tu hwnt i'w modd/gwario gormod
Poeni dim am y goblygiadau	Cymryd credyd pan gaiff ei gynnig
Mae dweud "na" yn ddiflas; mae dweud "ie" yn hwyl	Anwybyddu biliau/ad-daliadau
Dibynnu ar fanc mam a dad	Anwybyddu costau ychwanegol yn sgil gwariant mawr (cynnal, yswiriant ac ati)
'Arian am ddim' yw credyd; mae dyled yn rhywbeth normal	Cymryd risgiau gyda'u harian (e.e. roulette cerdyn credyd)
Ffydd wag y bydd "popeth yn iawn" yn y dyfodol	

Bydd y Bil yn gwella galluogrwydd ariannol ymysg plant oed ysgol a phobl ifanc drwy osod gofyniad cyfreithiol i gynnwys addysg ariannol ar gwricwlwm ysgolion. Cwestiynau 1 i 5

Nid yw sail y dystiolaeth yn gyflawn eto, ond mae rhai negeseuon cyson yn glŷn â'r dull gorau:

- Gall ein perthynas ag arian fod yn ei lle erbyn ein bod yn saith oed (ac mae'n cychwyn pan ydym yn dair blwydd oed)
- Rhieni yw'r dylanwad unigol mwyaf wrth ei chreu
- Negeseuon syml a ailadroddir gan ffynonellau lluosog sy'n gweithio orau
- Os na ddefnyddir sgiliau a gwybodaeth o fewn cwpl o flynyddoedd, fe'u collir

Y gwasanaethau a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc

Mae'r angen i ddatblygu galluogrwydd ariannol ymysg plant a phobl ifanc yn fater sydd yn uwch ar yr agendâu cenedlaethol a rhyngwladol nag erioed o'r blaen. Mae addysg ariannol wedi ei drwytho yng nghwricwlwm cynradd ac uwchradd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban⁶; yn fwy diweddar, cafodd ei gynnwys yn y cwricwlwm uwchradd yn Lloegr⁷. Yn rhyngwladol, mae mwy a mwy o wledydd yn cymryd rhan yn y Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA), sy'n mesur lefelau llythrennedd ariannol.

Bu sefydliadau cenedlaethol a lleol yn gweithio ar y mater hwn ers nifer o flynyddoedd, gan ddatblygu ystod o offer ac ymyriadau addysg ariannol. Tueddodd y pwyslais ar gyfer y rhaglenni hyn fod ar ymyriadau yn yr ysgol, ar gyfer rhai 11-16 oed. Bu i'r ymyriadau hyn ganolbwyntio fwyaf ar fesur a gwella sgiliau a gwybodaeth ariannol plant. Prin iawn yw'r rhaglenni sy'n canolbwyntio ar feithrin ymagweddau ac ymddygiadau ariannol cadarnhaol ymysg plant a phobl ifanc. Prin iawn hefyd yw'r ymyriadau gan rieni neu deulu, gydag ychydig iawn o waith ar gyfer plant dan bump oed.

Addysg ariannol mewn Ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cydnabod fod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth ddysgu addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Gall darparu addysg ariannol ar draws y cwricwlwm gynnig cyfleoedd dysgu perthnasol, heriol a diddorol i'r holl ddysgwyr fedru cysylltu dysgu â bywyd y tu allan i'r ysgol; datblygu sgiliau datrys problemau dysgwyr mewn cyd-destun bywyd. Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cydnabod fod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth ddysgu addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Agweddau ac ymddygiadau rhai rhwng 16-21 oed

Agweddau	Ymddygiadau
Byw am heddiw a phoeni yfory	Byw y tu hwnt i'w modd/gwario gormod
Poeni dim am y goblygiadau	Cymryd credyd pan gaiff ei gynnig
Mae dweud "na" yn ddiflas; mae dweud "ie" yn hwyl	Anwybyddu biliau/ad-daliadau
Dibynnu ar fanc mam a dad	Anwybyddu costau ychwanegol yn sgil gwariant mawr (cynnal, yswiriant ac ati)
'Arian am ddim' yw credyd; mae dyled yn rhywbeth normal	Cymryd risgiau gyda'u harian (e.e. roulette cerdyn credyd)
Ffydd wag y bydd "popeth yn iawn" yn y dyfodol	

⁶ Materion Ariannol: darpariaeth uwchradd yng Nghymru –
⁷ Datblygu pobl ifanc sydd yn addysg arian personol.

gyrraedd pob rhan o gymdeithas, yn cynnwys llawer o unigolion y gall fod yn llawer anoddach i'w cyrraedd yn y dyfodol, megis plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Canllaw sy'n atodol i'r Bil yn nodi, yng Nghymru, bod addysg ariannol wedi'i drwytho o fewn Mathemateg, ABCh ac addysg Yrfaol yn y cwricwlwm. Amlygodd y Canllaw hefyd bod Estyn wedi adnabod nad oes digon o amser o fewn y cwricwlwm a bod diffyg cydgorddio addysg ariannol o fewn ysgolion yn rhai o'r enghreifftiau o'r rhwystrau tuag at addysg ariannol effeithiol.

Yn fwy diweddar, mae arian wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (LNF) newydd gyda chanlyniadau 'ariannol' penodol eu hangen yn erbyn pob grŵp blwyddyn. E.e. Mae dysgwyr dosbarth derbyn yn medru defnyddio 1c, 2c, 5c, 10c i dalu am eitemau ac mae dysgwyr Blwyddyn 8 yn medru gwerthfawrogi egwyddorion sylfaenol cyllidebu, cynilo (yn cynnwys deall beth yw adlog) a benthycu.

Yr LNF yw un o'r dulliau statudol ar gyfer dysgu addysg ariannol lle mesurir y canlyniadau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Gan fod hyn ond wedi'i gyflwyno'n ddiweddar, ni fu gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a fydd hyn yn sicrhau addysgu cyson ar addysg ariannol yng Nghymru. O ganlyniad credwn, cyn ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol ar ysgolion, gall fod yn briodol sicrhau y cwblheir gwerthusiad o'r fframwaith presennol yn gyntaf a deall beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio eisoes o fewn y cwricwlwm fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r Cwricwlwm a'r Aseiad.

Wrth werthuso unrhyw addysg ariannol mewn ysgol, ni ddylid defnyddio'r nifer o oriau dysgu fel arwydd o effeithiolrwydd. Gwyddom nad yw rhagor o addysg bob amser yn well oni bai y cysylltir addysg yn agos ag adegau o wneud penderfyniadau. Awgryma ymchwil bod angen addysg ariannol "mewn union bryd" yn hytrach na blynyddoedd lawer o addysgu er mwyn sicrhau newid ymddygiad⁸. Dengys ymchwil os nad yw cyfwerth ag un awr o addysg lythrennedd ariannol yn cael ei roi ar waith cyn pen 8 mis, collir y wybodaeth honno. Ar y llaw arall, os rhoddir yr awr honno ar waith o fewn mis, mae yr un mor effeithiol â deuddeg awr o addysg a roddir ar waith wedi 10 mis. Dengys yr ymchwil y gall addysg ariannol mewn ysgolion gael effaith fuddiol ar ymddygiad ariannol a phenderfyniadau pobl ifanc, ond rhaid i hynny gael ei ddysgu iddynt yn amserol a bod yr addysg honno'n amlwg ac yn berthnasol i'r bobl ifanc hynny sy'n ei derbyn.

Unwaith y cwblheir y gwerthuso ac os, am ryw reswm, nad yw addysg ariannol yn gyson mewn ysgolion o hyd, yna efallai y bydd yn ddoeth ailystyried datrysiad deddfwriaethol.

Bylchau yn y ddarpariaeth bresennol

Drwy'r Bil byddai addysg ariannol yn cael ei hychwanegu at anghenion y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (7 oed ac uwch). Nodwn yr ystyriwyd yr oed hwn gan y Canllaw sy'n atodol i'r Bil a dywed y canllaw, er y byddai o fudd i blant ddysgu am gysyniadau ariannol a rheoli arian cyn gynted â phosibl, mae gorfodi hynny'n gyfreithiol yn ddiangen efallai ar gyfer oedrannau dan 7.

Byddem yn awgrymu cyfeiriad yn y Bil at gynnwys ymyriadau galluogrwydd ariannol mewn mentrau rhianta neu ddysgu fel teulu ledled Cymru. Mae manteisio ar y corff mwy datblygiedig o newid ymddygiadol a thystiolaeth o ymyrraeth gynnar yn rhoi mewnwelediad ar sut i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o unigolion sydd â hyder ariannol.

Mae tystiolaeth gref mai rhieni a gofawyr sydd â'r dylwanwad mwyaf allweddol ar gyfer galluogrwydd ariannol oherwydd eu gallu (neu fel arall) i roi mewnwelediadau ar waith:

- bod yn esiampl gydag ymddygiad galluogrwydd ariannol;
- darparu arian a siarad yn agored i'w plant am arian; a
- darparu'r cyfle i brofi rheoli arian⁹¹⁰

⁸ <http://www.nefe.org/Portals/0/WhatWeProvide/PrimaryResearch/PDF/CU%20Final%20Report.pdf>

⁹ *Sefydli Arferion Da a Dysgu ymysg Pobl Ifanc* (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 2013)

¹⁰ *Effaith ymrwymiad rhieni yn addysg plant* (Yr Adran plant, ysgolion a theuluoedd, 2008)

Mae cyngor ariannol yn gweithio orau pan gaiff ei ddarparu drwy negesydd yr ymddiriedir ynddo. Dan 7 oed, mae plant yn fwy tebygol o dderbyn cyngor eu rhieni.¹¹ Trwy gydol blaenlencyndod, mae pobl ifanc bob amser yn fwy tebygol o droi at eu rhieni (mae 77% yn ystyried cyngor eu rhieni yn fwyaf defnyddiol).¹² Dengys ymchwil o'r UDA mai myfyrwyr coleg sydd â rhieni sy'n arddel y rhianta cadarnhaol a ddigrifir uchod yw'r rhai sydd â'r galluogrwydd ariannol mwyaf. Siarad am arian gyda'u rhieni oedd y ffactor mwyaf arwyddocaol. Canfuwyd bod y dylanwad hwn gan rieni unwaith a hanner yn gryfach nag addysg ariannol a dwywaith cyn gryfed â dylanwad cyfoedion.¹³

Hefyd rydym yn credu, fel sy'n wir gyda llythrennedd a rhifedd, bod galluogrwydd ariannol yn cael ei drosglwyddo rhwng cenedlaethau o rieni i blant. Dyma pam mae'n hanfodol bod cefnogi rhieni i wella eu galluogrwydd ariannol eu hunain a'u helpu i gefnogi eu plant, yn ffurfio rhan o unrhyw fenter sy'n ceisio gwella galluogrwydd ariannol Cymru. Rydym yn awgrymu y dylid ystyried galluogrwydd ariannol fel rhan o'r rhaglenni rhianta ar gyfer rhaglen Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref gan Lywodraeth Cymru a'i ymgorffori yn y Fenter Teuluoedd yn Gyntaf.

Bydd mabwysiadu ymagwedd yr holl deulu fel gyda Theuluoedd yn Gyntaf yn darparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr holl deulu, yn hytrach na'r unigolion ar eu pennau eu hunain, ac maent yn ffyrdd mwy effeithiol o wella eu canlyniadau a chwrdd â dyheadau'r Bil a gynigir.

Mae cefnogi plant a phobl ifanc o'u cyfnod fel babanod hyd at eu hannibyniaeth ariannol, meithrin meddylfryd ariannol cadarnhaol, a defnyddio ystod ehangach o negesyddion, yn debygol o wella galluogrwydd ariannol ymhellach ymysg plant a phobl ifanc.

Bydd y Bil yn cryfhau rôl yr awdurdodau lleol wrth roi cymorth i bobl osgoi mynd i anawsterau ariannol, drwy ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth o gynhwysiant ariannol. Cwestiynau 1 i 5

Mae un pwynt cyswllt ac o gyfrifoldeb yn ddefnyddiol ar gyfer asiantaethau partneriaethol. Bydd Swyddog sy'n gyfrifol am weithrediadau a chanlyniadau Cynhwysiant Ariannol beth bynnag yw ei swyddogaeth yn yr awdurdod lleol, o gymorth i'r gwahanol asiantaethau a phartneriaid posib wrth gefnogi a chyfranogi ar lefel awdurdod lleol. Serch hynny, fel gydag Addysg Ariannol mewn ysgolion, mae Cynhwysiant Ariannol yn fater trawsbynciol ac mae perygl iddo gael ei ynysu ynghyd â biwrocratiaeth cynyddol a dyblygu diangen. Er enghraifft, mae'n rhaid adrodd ar weithgarwch yn ymwneud â thlodi plant dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a bydd yn rhaid i Strategaeth Cynhwysiant Ariannol adrodd yr un gweithgarwch hefyd ynghyd ag eraill o wahanol adrannau.

Yn ogystal, ar hyn o bryd mae llawer iawn o bethau'n digwydd a fydd yn golygu newid ar gyfer partneriaid a gwasanaethau, sydd yn cael effaith ar bobl yn ein cymunedau yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys Adolygiad y Gwasanaethau Cynghori, Credyd Cynhwysol a Fframwaith y Gwasanaeth Cefnogi Lleol, y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ogystal â nifer o strategaethau perthnasol presennol, megis y Cynllun Integredig Lleol, Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru a'r Strategaeth Trechu Tlodi. Ymhellach mae yna amryw o rwydweithiau a gweithgorau ynghylch diwygiad lles, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Dysgu fel Teulu, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl, Cymunedau yn Gyntaf, ac ati. Mae gan bob un o'r rhain ran arwyddocaol i'w chwarae mewn Cynhwysiant Ariannol a galluogrwydd ariannol lle mae atebolrwydd gan awdurdodau lleol ar gynydd ond nid yw'r adnoddau'n cynyddu ac maent yn aml yn prinhaus.

Yn hytrach na strategaeth newydd, gellid cysylltu mecanwaith presennol megis y Cynllun Integredig Sengl, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol fel canlyniadau ar draws y gwahanol agendâu megis diwygiad lles, cam-drin domestig, diogelwch cymuned (COMS), cynhwysiant digidol, trechu tlodi a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

¹¹ [Sefydlu Arferion Da a Dysgu ymysg Pobl Ifanc](#) (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 2013)

¹² [Galluogrwydd Ariannol pobl ifanc 15-17 oed](#) (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 2013)

¹³ [APLUS Ton 2: Newid Ymddygiadau Ariannol Myfyrwr Coleg o'r Flwyddyn Gyntaf](#) (Prifysgol Arizona, 2011)

Fel hyn bydd cynllun ar y cyd yn tynnu partneriaid o'r gwahanol elfennau, gan ddod â nodau cyffredin a blaenoriaethau allweddol i'w halinio a'u hadrodd arnynt gyda'i gilydd, i sicrhau bod y darlun mawr yn cael ei ddeall yn well ac yn hyrwyddo newid cynaliadwy. Dylai fod gan unrhyw gynllun set o weithrediadau a chanlyniadau i'w hadrodd yn eu herbryn er mwyn osgoi'r perygl y bydd y ddogfen yn hel llwch ar y silff. Bydd y canlyniadau hyn yn cael effaith ar waith arall sy'n mynd rhagddo ar draws gwasanaethau cymdeithasol (defnydd o fudd-daliadau), tai (talw rhent yn uniongyrchol), cam-drin domestig (cam-drin ariannol), amgylchedd (tloedi tanwydd) ac amryw o rai eraill.

Adrodd ar Ymyriadau Galluogrwydd Ariannol

Yn y canllaw dywed "y bydd hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ger bron y Cynulliad yn ystod pob blwyddyn ariannol a fydd yn adrodd ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol". A hefyd "Y bydd y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithredu'n sicrhau y gall pob gweithred gan bob awdurdod yn hyn o beth gael ei fonitro, ei feincnodi a'i graffu gan unrhyw barti sydd â diddordeb."

Fel rhan o unrhyw broses adolygu ac adrodd, hoffem annog ysgolion ac awdurdodau lleol i werthuso'u hymyriadau galluogrwydd ariannol drwy ddefnyddio Strategaeth y DU ar fframwaith galluogrwydd ariannol ar gyfer plant a phobl ifanc gan adrodd ar y canlyniadau'n gyhoeddus.

Dim ond drwy ddatblygu dealltwriaeth lawn a chadarn o ba ymyriadau sydd fwyaf effeithiol wrth wella galluogrwydd ariannol plant a phobl ifanc y gellir dylanwadu fwyaf ar fywydau pobl, a defnyddio'r adnoddau prin yn y ffyrdd gorau. Yn aml mae'n anodd cymharu canlyniadau o werthusiadau effaith presennol, oherwydd y gwahanol ffyrdd y mae sefydliadau'n diffinio ac yn mesur eu deilliannau. Mae hyn yn cyfyngu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i gomisiynu ac i ymarfer yn effeithiol.

Er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch y mathau o raglenni sy'n fwyaf effeithiol i gynyddu galluogrwydd ariannol ar gyfer grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, mae mwy o ansawdd a chysondeb mewn gweithgarwch gwerthuso yn ofynnol. Fel rhan o waith cysylltu datblygiad o Strategaeth newydd ar gyfer galluogrwydd ariannol i'r DU, mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cynhyrchu pecyn cymorth gwerthusiad cyffredin a fydd yn rhoi'r arweiniad clir ac offer ymarferol sydd eu hangen i ariannwyr addysg ariannol er mwyn iddynt gynnal gwerthusiadau effaith cadarn a chyson. Elfen allweddol o'r pecyn cymorth hwnnw yw'r fframwaith canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n rhoi canllaw clir ar ba ganlyniadau ynghylch galluogrwydd y dylid anelu amdanynt a'u mesur ar gyfer gwahanol oedrannau. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau yn ymwneud â sgiliau a gwybodaeth yn ogystal â'r rhai sy'n gysylltiedig ag ymagweddau ac ysgogiadau (er enghraifft hunan-reolaeth a hunan-hyder), a chyfleoedd i blant a phobl ifanc reoli eu harian eu hunain.

Cyfeiriodd amryw o ymatebion yr ymgynghoriad cychwynnol i'r Bil a gynigir at Safon Cynhwysiant Ariannol Cenedlaethol. Bydd defnyddio fframwaith cyffredin o gymorth i ni anelu at ddatblygu safon o'r fath ac yn sicr o alluogi awdurdodau lleol i ddeall eu heffaith yn well.

Drwy gysylltu unrhyw waith adrodd ar ymyrraeth galluogrwydd ariannol mewn ysgol neu gan yr awdurdod lleol, nid yn unig y gellid monitro a gwerthuso ymyriadau mewn modd cyson, ond gellid cymharu'r siwrnai a deithiwyd ar draws y DU hefyd, rhwng yr holl asiantaethau drwy ddefnyddio'r fframwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Byddai hyn yn rhoi meincnod I ni fedru gwerthuso a chymharu'r holl ymyriadau ledled Cymru, gan felly roi cymorth i ni oll nesáu at ddyheadau'r Bil hwn.

Bydd y Bil yn rhoi dyletswyddau i awdurdodau lleol o safbwynt cynnig cyngor am reoli ariannol, yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n 16 neu 17 oed, plant a oedd yn arfer derbyn gofal a myfyrwyr. Cwestiynau 1 i 5

Canfu ymchwil gan Lais Defnyddwyr Cymru ym Mawrth 2011.¹⁴ gwnaed yr argymhellion canlynol y byddem yn eu cefnogi.

Dylai awdurdodau lleol:

- gyflawni eu dyletswyddau statudol a darparu cynllun llwybr i bob unigolyn ifanc erbyn eu penblwydd yn 16 a sicrhau yr ystyrir anghenion galluogrwydd ariannol yr unigolyn ifanc fel rhan o'r broses asesu a chynllunio.
- sicrhau bod yr holl bobl ifanc wedi derbyn addysg ariannol a chymorth priodol i gydgyssylltu ag unrhyw gymorth ariannol y gallent ei dderbyn gan gynnwys eu grantiau gadael gofal ac wrth bontio i ddod yn oedolion.

Yn ogystal, gan gyfeirio'n ôl at y dystiolaeth flaenorol bod cymorth ariannol yn gweithio orau wrth ei gyflwyno drwy negesydd ymddiriedig, byddem yn awgrymu y dylai'r bobl broffesiynol sy'n cydgysylltu â'r gadawyr gofal hynny megis gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymdeithasol, cymorth ôl-ofal ac ati, gael eu hyfforddi'n briodol i osod a glynu wrth ganllawiau a goblygiadau ariannol, a thwy'r defnydd o gynnyrch sydd ag elfen o nodweddion oedolion, gallent roi cymorth i baratoi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i fod yn oedolion a fydd yn rheoli arian yn gyfrifol.

¹⁴ Llais Defnyddwyr Cymru, Mawrth 2011, O ofal i ble? Sut mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal.

Eitem 4

National Assembly for Wales

Children, Young People and Education Committee

Financial Education and Inclusion (Wales) Bill

CYPE(4)-23-14 – Paper 5

Response from : Estyn

Estyn welcomes the opportunity to provide additional feedback relating to the consultation on the proposed Financial Education and Inclusion (Wales) Bill. We have set out our response in line with the questions noted below.

General

- 1. The Explanatory Memorandum prepared by Bethan Jenkins, AM describes the Bill's primary policy objective of the Bill as being to equip people in Wales with the financial competency they need to manage their financial circumstances effectively. In doing so, the proposals will help to increase prosperity in Wales by improving the financial education and capability of its citizens.**

The Bill's proposals fall into three broad categories:

- The Bill will improve financial capability amongst school-age children and young people by making it a legal requirement that financial education is included in the school curriculum (sections 4 to 7 in the Bill).**
- The Bill will strengthen the role of local authorities in helping people avoid falling into financial difficulty, by requiring local authorities to adopt a financial inclusion strategy (sections 8 to 10 in the Bill).**
- The Bill will give local authorities duties in respect of providing advice about financial management, both generally and specifically to looked after children aged 16 to 17, to former looked after children and to students (sections 11 to 13 in the Bill).**

Is there a need for a Bill for these purposes? Please explain your answer.

Since we carried out our 'Money Matters' thematic survey in 2011, there have been a number of curriculum changes that have strengthened the provision for financial education in schools.

These include the introduction of the Literacy and Numeracy Framework (LNF) and the forthcoming introduction of GCSE mathematics – numeracy by September 2015. Financial education is identified clearly in both.

The Literacy and Numeracy Framework (LNF) is a statutory document and schools are required to amend provision to ensure suitable coverage. Financial education is not 'overlooked' as noted in paragraph 14 of the Explanatory Memorandum as there is currently a statutory requirement for schools to deliver financial education.

The changes in the LNF and GCSE mathematics-numeracy are in addition to the references made to financial education and using money in various existing examination specifications and statutory and non-statutory curriculum documents, including:

- GCSE mathematics (current syllabus);
- the mathematics National Curriculum Subject Order for seven to 16-year-olds;
- the non-statutory Personal and Social Education framework for seven to 19-year-olds; and
- the non-statutory Careers and the World of Work framework for 11 to 19-year-olds.

Given the relatively recent introduction of the Literacy and Numeracy Framework as a statutory curriculum planning document, it would be sensible to provide time for this development to embed before making further changes or undertaking another evaluation of financial education.

Schools should be given the flexibility to deliver provision in a way that best meets the needs of their learners. A prescriptive and piecemeal approach to curriculum planning should be avoided as this will not help schools to take an holistic approach to curriculum delivery.

2. Do you think the Bill, as drafted, delivers the stated objectives as set out in the Explanatory Memorandum? Please explain your answer.

The Bill delivers the stated objectives as set out in the Explanatory Memorandum. However, financial education has already been included across a wide range of statutory and non-statutory curriculum documentation as noted in our response to Question 1.

3. Are the sections of the Bill as drafted appropriate to bring about the purposes described above? If not, what changes need to be made to the Bill?

The Financial Education and Inclusion (Wales) Bill, includes a section regarding reporting on an annual basis – 6 Annual Report.

This includes a reference to Estyn and:

6 (2) The Welsh Minister may direct Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales to prepare the report.

We feel that it would be more appropriate to report on financial education as part of a stand-alone thematic survey rather than requiring a report on it in all school inspection report. This would ensure that this issue has suitable prominence and key messages are clear.

4. How will the Bill change what organisations do currently and what impact will such changes have, if any?

The Financial Education and Inclusion (Wales) Bill could have a significant impact on Estyn's work and budget if it necessitated reporting on Financial Education in every inspection. It would require an increase to our budget. (See reply to Question 8).

5. What are the potential barriers to implementing the provisions of the Bill (if any) and does the Bill take account of them?

See Estyn's response to Question 1 and Question 4.

6. Do you have any views on the way in which the Bill falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales?

Estyn does not hold any strong views on this.

Powers to make subordinate legislation.

7. What are your views on powers in the Bill for Welsh Ministers to make subordinate legislation (i.e. statutory instruments, including regulations, orders and directions)?

In answering this question, you may wish to consider pages 47-48 of the Explanatory Memorandum.

Estyn does not hold any strong views on this.

Financial Implications

8. What are your views on the financial implications of the Bill? In answering this question you may wish to consider Part 2 of the Explanatory Memorandum (the Regulatory Impact Assessment), which estimates the costs and benefits of implementation of the Bill.

The Financial Education and Inclusion (Wales) Bill has financial implications for Estyn. However, the extent of these implications would depend on the nature of the reporting. Estyn estimated that to produce a thematic survey evaluating Financial Education would cost approximately £40k.

If during all school inspections, inspectors were required to report on financial education, they would need to spend at least two hours during inspection scrutinising relevant documentation and pupils' work and an hour meeting relevant staff. This in practice would require an additional half day added to the inspection 'footprint'. We would need to amend our guidance to inspectors so that they ask relevant questions to pupils during other activities such as listening to learners.

This additional work would cover around 140 inspector days per annum. However, if inspectors were required to travel to a school, this would add an additional one day of travel time per inspector, taking the total up to 350 inspector days. Overall, it would be around two HMI or £160k including on-costs annually.

Other comments

9. Are there any other comments you wish to make about specific sections of the Bill?

Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon